Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010-2011

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010-2011

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001

*Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w hargraffu ar 12 Gorffennaf 2011*

HC 1390 Llundain: Y Llyfrfa £15.50

**(h) Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2011)**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle y maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn Nursing and Midwifery Council (Governance section), 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.nmc-uk.org**.**

ISBN: 9780102974157

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID: P002439612 07/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd ..... 4
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ..... 5
Adolygiad 2010-2011 ..... 6
Trosolwg ..... 6
Cyflawni yn erbyn ein cynllun busnes ar gyfer 2010-2011 ..... 6
Diogelu ..... 7
Rhanddeiliaid ..... 11
Staff ..... 14
Adolygiad ariannol ..... 17
Adroddiad cydnabyddiaeth ..... 19
Strwythur, llywodraethu a rheoli ..... 23
Aelodau'r Cyngor ..... 23
Pwyllgorau ..... 24
Rheoli ..... 24
Cynghorwyr y Cyngor ..... 25
Adolygu risg ..... 25
Budd y cyhoedd ..... 25
Cymru ..... 26
Yr Alban ..... 26
Gogledd Iwerddon ..... 26
Gwybodaeth archwilio berthnasol ..... 26
Cynlluniau ar gyfer y dyfodol ..... 27
Heriau strategol ..... 27
Nodau strategol ..... 28
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon ..... 29
Datganiad am reolaeth fewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ..... 30
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ..... 34
Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd ..... 36
Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ..... 38
Mantolen ar 31 Mawrth 2011 ..... 40
Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ..... 41
Nodiadau i'r cyfrifon ..... 42
Penderfyniad Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Ffurf Cyfrifon) 2010 ..... 62

## Rhagair y Cadeirydd

Ers dod yn Gadeirydd ym mis Ionawr 2009, rwyf wedi bod yn awyddus i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) ddatblygu fel sefydliad hawdd mynd ato sy'n gwerthfawrogi cyfraniad ei bartneriaid. Rwyf wedi gweld â'm llygaid fy hunan y ffordd y mae canfyddiad gweithwyr proffesiynol allweddol a rhanddeiliaid cyhoeddus o'r Cyngor yn newid. Cawn ein canmol fwyfwy am ein gwaith cydweithredol.

Gwelwyd enghraifft o hyn yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2010. Roedd y cyfarfod ym Melfast yn nodedig am iddo weld lansiad ein *Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru*. Bydd y safonau yn cael effaith sylweddol ar y proffesiwn ac yn gwella ansawdd gofal cleifion yn y dyfodol. Fe'u lluniwyd yn dilyn cryn ymgynghori a gwaith datblygu â'n partneriaid ledled y DU, a chafodd ein rhaglen lansio ei datblygu'n agos â'n cydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Fodd bynnag, mae a wnelo gwaith partneriaeth â mwy na'n gwaith gyda rhanddeiliaid allanol. Mae hefyd yn disgrifio'r ffordd y mae staff ac aelodau'r Cyngor yn gweithio. Hoffwn ddiolch yn bersonol i'm cydweithwyr, ac yn arbennig fy nghyd-aelodau o'r Cyngor, am eu cymorth a'u hymrwymiad i'n gwaith drwy gydol y flwyddyn.

Bydd heriau newydd yn ein hwynebu yn y flwyddyn i ddod, yn enwedig y newidiadau i'r system reoleiddio sy'n digwydd mewn hinsawdd economaidd anodd. Fodd bynnag, rwy'n parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau y bydd y CNB yn dal i weithio mewn ffordd adeiladol gyda'i bartneriaid sy'n rhanddeiliaid er mwyn cyflwyno system reoleiddio sy'n gosteffeithiol ac yn effeithlon.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd**
**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

# Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Bu hon yn flwyddyn lawn gyntaf gyffrous a boddhaus fel Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Dros y 12 mis diwethaf, mae wedi bod yn fraint cael gweld llawer o nyrsys a bydwragedd wrth eu gwaith ac rwyf wedi cael trafodaethau hir gyda hwy ynghylch yr angen i ddiwallu anghenion eu cleifion a bod yn rhagweithiol ymhob agwedd ar eu gwaith.

Mae'r her sydd ynghlwm wrth fod yn rhagweithiol hefyd yn un yr wyf wedi'i phennu i'r Cyngor fel sefydliad.

Ni all rheoleiddwyr orffwys ar eu rhwyfau. Mae ein rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y proffesiynau a reoleiddir gennym, y llywodraeth ac, yn bwysicaf oll, y cyhoedd yn gwbl gywir i ddisgwyl i ni ateb yr heriau a wynebwn yn uniongyrchol.

Y llynedd, gwelwyd sawl enghraifft ohonom yn cymryd yr awenau:

- Rydym wedi meithrin cysylltiadau mwy effeithiol ag uwch ffigyrau proffesiynol fel eu bod yn deall yr hyn a wnawn ac yn gwybod sut i dynnu ein sylw at faterion diogelu'r cyhoedd ar gam cynnar.

- Rydym wedi sefydlu uned arbennig i ymchwilio i bryderon diogelwch ac ymateb iddynt.

- Rydym wedi datblygu trefniadau cyfnewid gwybodaeth ystyrlon â sefydliadau allweddol, gan gynnwys rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill sydd ynghlwm wrth waith diogelu'r cyhoedd.

Rwyf wedi pennu agenda heriol ar gyfer y CNB ac yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn cyflawni mwy o waith newydd ac yn gwneud gwelliannau pellach. Hoffwn ddiolch i bob un o'm cydweithwyr am eu hymrwymiad a'u gwaith caled eleni.

**Yr Athro Dickon Weir-Hughes**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

# Adolygiad 2010-2011

## Trosolwg

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi'i sefydlu o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Y gorchymyn hwn a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n rheoli ein gwaith.

Fe'n cofrestrir â Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (rhif 1091434) a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

Ni yw rheoleiddiwr statudol holl nyrsys a bydwragedd y Deyrnas Unedig.

Ein hamcan elusennol yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Rydym yn pennu safonau o ran addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad nyrsys a bydwragedd ac yn cadw cofrestr o'r rheini sydd wedi cymhwyso ac sy'n cyrraedd y safonau hynny. Rydym yn rhoi arweiniad a chyngor i helpu nyrsys a bydwragedd i gael y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a chynnal eu safonau proffesiynol. Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i'r rheini y mae amheuaeth ynghylch eu cymhwyster i ymarfer ac ymdrin â'r unigolion hynny. Mae'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn o fudd i'r cyhoedd, yn unol â'n hamcanion elusennol.

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn ymrwymedig i fod yn atebol, yn deg, yn broffesiynol, yn flaengar ac yn gynhwysol.

## Cyflawni yn erbyn ein cynllun busnes ar gyfer 2010-2011

Mae ein cynllun busnes yn rhoi trefn ar ein gwaith er mwyn ein helpu i gyflawni tri nod strategol sy'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau statudol. Y cyntaf yw ein gwaith i ddiogelu iechyd a lles pobl sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau nyrsys a bydwragedd. Ategir y flaenoriaeth ganolog hon gan ein gweithgarwch i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae'r ddau faes yn dibynnu ar staff o safon a'r systemau ategol angenrheidiol.

Yn erbyn y tri maes hyn y cyflwynir adroddiad ar y cynnydd a wnaed.

## Diogelu

### Amcanion

Bydd diogelwch y cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn:

- gosod a mesur safonau addysg uchel i nyrsys a bydwragedd
- diogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy gadw cofrestr gywir a hygyrch o bob nyrs a bydwraig sy'n gymwys i ymarfer yn y DU
- ennyn hyder pobl sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth drwy roi sicrwydd ynghylch ansawdd y system o oruchwylio bydwragedd
- pennu disgwyliadau clir i nyrsys a bydwragedd yn ymarferol fel y gall y cyhoedd fod yn hyderus ynghylch y gofal a ddarperir gan nyrs neu fydwraig
- ennyn hyder y cyhoedd drwy gymryd camau cyflym a theg i ymdrin ag unigolion y codir cwestiynau ynghylch eu gonestrwydd neu eu gallu i ddarparu gofal diogel.

### Cyflawniadau a pherfformiad

### Addysg

Cafodd ein *Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru* eu lansio ar eu newydd wedd ar amser ym mis Medi 2010, ac mae'n rhaid i bob sefydliad addysgol yn y DU a gymeradwywyd gan y CNB sy'n ceisio cymeradwyo rhaglenni nyrsio cyn cofrestru newydd gyrraedd Safonau 2010. Gan ddilyn amserlen y cytunwyd arni ar y cyd gan sefydliadau addysgol a gymeradwywyd a chomisiynwyr rhaglenni lleol, mae'r 33 o sefydliadau cyntaf wedi dewis ceisio cymeradwyaeth rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2011, gyda'r 38 o sefydliadau sy'n weddill yn cael eu hasesu yn ystod y ddwy flynedd ganlynol. O fis Medi 2013, dylai pob rhaglen cyn cofrestru newydd fod wedi cyrraedd y safonau newydd, gan sicrhau am y tro cyntaf fod pob nyrs newydd yn y DU wedi'i haddysgu i lefel gradd.

Fel rhan o'r gwaith hwn rydym hefyd wedi llunio cyngor a gwybodaeth ategol sy'n anelu at gynorthwyo sefydliadau addysgol a gymeradwywyd a'u darparwyr dysgu ymarfer i gynllunio a gweithredu'r safonau newydd.

Yn ogystal â'r prosesau newydd hyn, rydym yn parhau i gynnal adolygiadau blynyddol o berfformiad darparwyr rhaglenni mewn sefydliadau addysg uwch a gymeradwywyd a'u partneriaid ymarfer yn erbyn pum maes risg allweddol: adnoddau, derbyniadau a chynnydd, dysgu ymarfer, cymhwyster i ymarfer a sicrhau ansawdd. Ar hyn o bryd rydym yn cymeradwyo 1,061 o raglenni mewn 84 o sefydliadau addysgol.

Rydym hefyd wrthi'n adolygu'r fframwaith sicrhau ansawdd er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu proses sicrhau ansawdd yn y dyfodol.

**Cofrestru**

Mae cofrestr y CNB yn gronfa ddata gynhwysfawr o'r 665,132 o nyrsys a bydwragedd (fel yr oedd ym mis Mawrth 2011), a gofrestrwyd i ymarfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Ynysoedd.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella hygyrchedd, cyflwyniad a chynnwys y gofrestr fel ei bod yn adnodd diogelu defnyddiol a dynamig i bob defnyddiwr.

Yn 2010, gwnaethom weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar brosiect ar y cyd i drosglwyddo diweddariadau dyddiol o gofrestr y CNB yn uniongyrchol i'r system Cofnod Staff Electronig (CSE), sy'n cynnwys pob gweithiwr iechyd proffesiynol yng Nghymru a Lloegr. Bydd hyn yn gwella prosesau diogelwch drwy ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr awdurdodedig y GIG weld statws cofrestru a chymhwyster i ymarfer pob nyrs a bydwraig y maent yn gyfrifol amdani.

**Goruchwylio bydwragedd**

Ym mis Ionawr cyhoeddwyd ein hadroddiad *Supervision, support and safety: Analysis of the 2009-2010 LSA annual reports to the NMC*. Mae'r adroddiad hwn yn monitro ac yn gwerthuso pa mor effeithiol yw awdurdodau goruchwylio lleol (AGLlau) wrth ddarparu goruchwyliaeth effeithiol ledled y DU a'r Ynysoedd.

Ym mis Gorffennaf 2010 a mis Ionawr 2011 treialwyd adnodd monitro ansawdd newydd yn llwyddiannus. Bydd yn darparu dull strwythuredig o gyflwyno adroddiadau rheolaidd gan yr AGLlau sy'n dangos effeithiolrwydd prosesau goruchwylio statudol ac yn amlygu meysydd sy'n peri pryder. Bydd yr adroddiad cyntaf ar gael ym mis Ebrill 2011.

Cynhaliwyd adolygiadau ffurfiol o chwe AGLl yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan fesur eu perfformiad wrth fodloni'r gofynion statudol ar gyfer goruchwylio bydwragedd. Mae pob AGLl a adolygwyd hyd yn hyn wedi dangos ei fod yn cydymffurfio â'n safonau. Ni chafwyd unrhyw adolygiadau arbennig.

**Polisi a safonau**

Ym mis Medi, lansiwyd cyfarwyddiaeth newydd ar gyfer Polisi a Safonau Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae tri chyfarwyddwr cynorthwyol newydd bellach wedi'u penodi, sy'n gyfrifol am feysydd polisi, safonau nyrsio a safonau bydwreigiaeth yn y drefn honno, ac rydym yn buddsoddi yn ein staff ac yn recriwtio cydweithwyr newydd i'n helpu i adeiladu sail dystiolaeth briodol ar gyfer ein holl waith.

Rydym wedi cwblhau cam un ar ein hadolygiad o *Reolau a safonau bydwragedd*.

O ran ymwelwyr iechyd, rydym wedi darparu canllawiau ychwanegol i'n safonau fel bod modd cyflwyno rhaglenni addysg mewn ffordd hyblyg. Fe'u cynlluniwyd i helpu i recriwtio mwy o ymwelwyr iechyd i'r proffesiwn.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n gweithio o dan oruchwyliaeth nyrsys a bydwragedd yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Hefyd rydym wrthi'n sefydlu prosiect i adolygu ein canllawiau dirprwyo fel eu bod yn gliriach ac yn adlewyrchu arfer presennol. Yn ogystal, rydym wedi cwblhau adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol ac astudiaeth o arfer datblygedig.

## Cymhwyster i ymarfer

Yn 2010-2011, gwelwyd newidiadau a chynnydd sylweddol mewn perthynas â'n cyfarwyddiaeth Cymhwyster i Ymarfer. Penodwyd cyfarwyddwr a chyfarwyddwyr cynorthwyol newydd ac aed ati i ad-drefnu strwythur ac arferion gwaith y gyfarwyddiaeth yn sylweddol.

Yn 2010, canolbwyntiwyd ar adolygu ansawdd a chysondeb proses gwneud penderfyniadau paneli, gan gynnwys gweithredu'r hyn a ddysgwyd gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd a rheoleiddwyr eraill. Nod y gwaith hwn fu gwella cywirdeb, cysondeb ac uniondeb y broses gwneud penderfyniadau. I ategu'r gwaith, rydym wedi cyflwyno tîm sgrinio newydd, llunio gweithdrefnau gweithredu safonol, rhaglenni sefydlu manwl a hyfforddiant i bob aelod o staff a dysgu parhaus oddi wrth achosion.

Rydym wedi dechrau datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol eraill er mwyn dogfennu prosesau ym mhob rhan o'r gyfarwyddiaeth. Caiff y rhain eu defnyddio i gadarnhau cydymffurfiaeth, sicrhau cysondeb dealltwriaeth staff, ac archwilio'r gwaith a wnaed. Rydym wedi atgyfnerthu ein llythyrau safonol er mwyn adlewyrchu ein pwerau statudol a bwriadwn eu symleiddio ymhellach gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar gwsmeriaid yn fwy.

Rydym wedi cyflwyno proses achos ac effaith er mwyn ein helpu i nodi a deall digwyddiadau critigol a'u heffaith ar y busnes. Mae hyn yn sicrhau y gallwn wneud gwelliannau angenrheidiol i brosesau, polisi neu systemau er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto. Wrth symud ymlaen, nod ein rhaglen sicrhau ansawdd yw diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'n gwaith yn cael eu pwyso a'u mesur yn briodol.

O ganlyniad i'n rhaglen waith i wella'r broses o gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, ynghyd ag ymdrin ag adborth gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Iechyd, rydym wedi penodi pennaeth cyswllt allanol sy'n swydd newydd sbon. Crëwyd y swydd hon i feithrin a chynnal cydberthnasau effeithiol ag uwch gynrychiolwyr rhanddeiliaid allanol, yn enwedig cyflogwyr.

## Cymhwyster i ymarfer: Llwyth achosion

Cyfeiriwyd cyfanswm o 4,211 o achosion atom yn ystod y flwyddyn. Ystyriodd paneli'r Pwyllgor Ymchwilio 4,058 o achosion eleni (2009-2010: 2,006). Cafodd 1,847 o achosion (2009-2010: 1045) eu cau am nad ystyriodd y paneli fod unrhyw achos i'w ateb. Cyfeiriodd y Pwyllgor Ymchwilio 647 o achosion (2009-2010: 351) i'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a 38 (2009-2010: 68) i'r Pwyllgor Iechyd am wrandawiad. Mae'r achosion sy'n weddill yn destun ymchwiliadau parhaus.

Ystyriodd y Pwyllgor Iechyd 221 o achosion (2009-2010: 235). Gwrandawodd paneli'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd 1,073 o achosion (2009-2010: 690) a chwblhawyd 574 o achosion (2009-2010: 503).

Cafwyd 13 o geisiadau i ddychwelyd i'r gofrestr y flwyddyn ddiwethaf (2009-2010: 6). Roedd wyth yn llwyddiannus.

**Cymhwyster i ymarfer: Hyfforddi panelwyr**

Mae pob panelydd cymhwyster i ymarfer wedi bod mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Hyd yn hyn, mae 179 o banelwyr wedi mynd i ddigwyddiadau mireinio dysgu diweddaru a rhwydweithio, ac mae 67 o gadeiryddion wedi mynd i ddigwyddiadau diweddaru dysgu. Hefyd rhoddwyd hyfforddiant i 82 o banelwyr a chadeiryddion y Pwyllgor Iechyd. Mae 30 o aelodau panel hefyd wedi bod mewn digwyddiad dysgu ynghylch gwrandawiadau dychwelyd i'r gofrestr. Bu'r gweithdai datblygu cymhwysedd yn gyfle i'r aelodau panel hynny nad oeddent wedi eistedd ar banel yn fynych yn 2010-2011 i sicrhau eu bod yn diweddaru eu sgiliau gwneud penderfyniadau.

Rhoddwyd hyfforddiant penodol i 26 o banelwyr a chadeiryddion ar wneud penderfyniadau mewn achosion cam-drin plant ar y rhyngrwyd.

Rhwng mis Mawrth a mis Awst 2010, cafodd 44 o gadeiryddion paneli arfarniad 360 gradd ac ers hynny mae 70 y cant o'n panelwyr wedi cael arfarniad o'r fath.

Mae adroddiad mwy cynhwysfawr ar ein gweithgarwch cymhwyster i ymarfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael ar ein gwefan a chaiff ei gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor ar yr un pryd â'r adroddiad hwn.

## Rhanddeiliaid

### Amcanion

Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd:

- meithrin a chynnal partneriaethau agored ac effeithiol sy'n ein helpu i gael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad nyrsys a bydwragedd a hyrwyddo diogelwch y cyhoedd
- hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhob agwedd ar ein gwaith
- datblygu a chynnal dulliau cyfathrebu adeiladol ac ymatebol fel bod pobl yn cael digon o wybodaeth am y safonau gofal a ddisgwylir gan nyrsys a bydwragedd.

### Cyflawniadau a pherfformiad

### Partneriaethau

Mae ein Cyngor yn cynnal o leiaf un cyfarfod blynyddol yn un o bedair gwlad y DU. Yn 2010 ymwelodd y Cyngor â Belfast lle, yn ogystal â chyfarfod ffurfiol y Cyngor, ymwelwyd â nifer o leoliadau addysg ac ymarfer yn y gymuned leol, cynhaliwyd derbynwest i wleidyddion yn Stormont a lansiwyd ein safonau newydd ar gyfer hyfforddiant addysg nyrsys cyn cofrestru ym Mhrifysgol Queen's. Hefyd cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn San Steffan lle y cafodd aelodau Tŷ'r Arglwyddi eu briffio am ein gwaith ac atebwyd eu cwestiynau a'u pryderon ynghylch materion nyrsio a bydwreigiaeth.

Cafodd swydd newydd cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon ei chreu yn 2010 gan gydnabod natur fwyfwy amrywiol polisi iechyd a gofal cymdeithasol ledled y DU o ganlyniad i ddatganoli. Diben y swydd yw meithrin cydberthnasau cydweithredol cryf â chyflogwyr, uwch weision sifil, addysgwyr, cyrff proffesiynol a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyson â'r hyn a wnawn yng Nghymru, Lloegr a'r Ynysoedd, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr ar draws y DU.

Drwy weithio mewn partneriaeth bu modd i ni ddatblygu adnoddau ymarferol a chymorth i nyrsys a bydwragedd. Er enghraifft, cafodd ein canllawiau ar godi a chyfeirio pryderon eu llunio mewn cydweithrediad â Public Concern at Work, Action on Elder Abuse, yr Undeb Amddiffyn Meddygol, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Coleg Brenhinol y Bydwragedd ac Unsain.

O ganlyniad i'n hadolygiad o addysg nyrsio cyn cofrestru sefydlwyd partneriaeth waith agos â chyrff proffesiynol a chyhoeddus. Gan weithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer's, nodwyd nifer o bryderon yn ymwneud â gofal pobl â demensia a nam gwybyddol a byddwn yn ymchwilio i'r maes hwn ymhellach gyda'r gymdeithas a'r proffesiynau yn y flwyddyn i ddod. Er mwyn ategu'r gwaith o weithredu'r safonau, cynhaliwyd mwy nag 20 o sioeau teithiol rhwng mis Hydref 2010 a mis Ionawr 2011. Daeth dros 1,300 o nyrsys, addysgwyr, rheolwyr a chomisiynwyr i'r sioeau teithiol, ac rydym wrthi'n gweithio gydag adrannau iechyd llywodraeth y DU ac eraill i gefnogi'r broses weithredu a gwerthusiad tymor hwy.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu rhwydweithiau Ewropeaidd cynaliadwy ar gyfer rheoleiddio nyrsys a bydwragedd. Cafodd y rhwydwaith o reoleiddwyr bydwreigiaeth a sefydlwyd ym mis Mai 2009 ei ehangu i 23 gydag aelodau newydd. Ym mis Mai 2010 gwahoddodd y Comisiwn Ewropeaidd y CNB i gadeirio adolygiad o'r gyfarwyddeb ar gydnabod cymwysterau proffesiynol i'r graddau yr effeithir ar nyrsio. Casglwyd a dadansoddwyd adroddiadau profiad cenedlaethol oddi wrth 25 o aelod-wladwriaethau'r UE a chafwyd gwybodaeth gan Norwy hefyd. Cyhoeddwyd y gwaith hwn ar wefan y Comisiwn.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Ar ddiwedd 2010, cwblhawyd ymarfer casglu data amrywiaeth a oedd yn gymwys i'r gofrestr gyfan ac a barodd flwyddyn. Rhwng mis Awst 2009 a mis Hydref 2010, anfonwyd holiaduron amrywiaeth at nyrsys a bydwragedd a oedd yn gwneud eu taliad cofrestru blynyddol a'r rheini a oedd yn cofrestru am y tro cyntaf. Erbyn 31 Mawrth 2011 roedd 432,165 o ymatebion wedi'u cwblhau wedi dod i law. Caiff y data hwn ei ddadansoddi er mwyn ein helpu i sicrhau bod pob nyrs a bydwraig yn cael ei thrin mewn ffordd deg, agored ac onest gennym.

Rydym wedi parhau i feithrin ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ymhob rhan o'r sefydliad. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth rheolaidd a'i gwblhau. Yn dilyn y Ddeddf Cydraddoldeb a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2010, gwnaethom ddiwygio a gwella ein proses asesu'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau bod yr holl grwpiau newydd a ddiogelir wedi'u cynnwys.

Sicrhawn fod ein holl safonau newydd, megis *Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru*, yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd diweddarwyd *Good health and good character: Guidance for approved education institutions* er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd.

Parhawyd i gymryd rhan yn y Cyd-fforwm Rheoleiddio Gofal Iechyd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, sef grŵp sy'n rhannu arfer da ac yn hyrwyddo cydweithio ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r fforwm wedi gweithio gyda'r Adran Iechyd (Lloegr) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Ym mis Ionawr 2011, deuthum yn aelodau o'r rhaglen Hyrwyddo Amrywiaeth, a siaradodd ein Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn nigwyddiad arwain cyntaf Stonewall i bobl sy'n gweithio yn y GIG yn Lloegr. Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol er mwyn cefnogi a gwella profiadau byd gwaith ein staff sy'n lesbiaid, hoywon, pobl ddeurywiol a phobl drawsrywiol.

**Cyfathrebu**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi mynd ati'n ddiwyd i arallgyfeirio ein sianelau cyfathrebu, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu ac yn gosteffeithiol, tra'n sicrhau ein bod yn cyrraedd grwpiau gwahanol gyda'r wybodaeth angenrheidiol. Mae pob nyrs a bydwraig ar ein cofrestr yn cael copi blynyddol o *NMC Update*, sy'n rhestru'r holl safonau, canllawiau a gwybodaeth arall a gyhoeddwyd dros y 12 mis blaenorol, ynghyd â manylion ynghylch sut i gael gafael ar y wybodaeth hon. Rydym hefyd yn gwneud defnydd sylweddol o gylchlythyrau electronig a chyfryngau cymdeithasol. Ar hyn o bryd rydym yn anfon cylchlythyr electronig at fwy na 65,000 o nyrsys a bydwragedd bob pythefnos, ac mae mwy na 17,000 o bobl yn ymweld â'n tudalen ar Facebook.

Ym mis Ebrill 2010, cyflwynwyd cyfres o ddigwyddiadau 'cwrdd â'r Cyngor' i gyfarwyddwyr nyrsio, cyfarwyddwyr adnoddau dynol a phenaethiaid bydwreigiaeth o bob cwr o'r DU a'r Ynysoedd. Aeth dros 400 o bobl yn 2010-2011. Hefyd, cofrestrodd dros 1,000 o reolwyr nyrsio ac uwch nyrsys o bob cwr o'r DU ar gyfer sioeau teithiol i gyflogwyr a rheolwyr.

Ym mis Mai 2010, lansiwyd ein gwefan newydd. Yn ogystal â chyrraedd safonau hygyrchedd cydnabyddedig, mae'r wybodaeth ar y wefan wedi cael ei hailstrwythuro, gydag ardaloedd diffiniedig ar gyfer y cyhoedd, nyrsys a bydwragedd, cyflogwyr a rheolwyr, addysgwyr, myfyrwyr a'r cyfryngau. Mae'r wefan newydd yn cynnwys gwybodaeth i'r cyhoedd, sydd ar gael mewn 13 o ieithoedd.

Ym mis Medi 2010, cyhoeddwyd fersiwn electronig newydd o *Safonau ar gyfer addysg nyrsio cyn cofrestru*, gan ein galluogi i wneud mân addasiadau mewn ffordd dryloyw a hygyrch yn y dyfodol.

Ym mis Hydref 2010, lansiwyd ein hymgyrch i ddiogelu oedolion, a oedd yn anelu at hyrwyddo a chefnogi arfer gorau ym maes diogelu oedolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Wrth wraidd yr ymgyrch roedd adnodd gwefan a oedd yn cynnwys pedair ffilm fer, dolenni i adnoddau defnyddiol, pecyn cymorth hyfforddiant a modd i archebu posteri a chardiau post hyrwyddol. Drwy gyfuniad o weithgareddau hyrwyddo dros gyfnod cychwynnol o wyth wythnos, gwelwyd y pedair ffilm dros 18,000 o weithiau. Ym mis Mawrth 2011, enillodd y ffilmiau fedal aur yng ngwobrau clodwiw'r Gymdeithas Cysylltiadau Gweledol Ryngwladol.

Ym mis Tachwedd 2010, cafodd pawb ar ein cofrestr gopi o *Raising and escalating concerns: Guidance for nurses and midwives*. Hefyd cynhyrchwyd posteri, a amlygai bwyntiau allweddol y canllawiau, a oedd ar gael i'w harchebu drwy ein gwefan. Fel yr ymgyrch i ddiogelu oedolion, crëwyd canolfan ar-lein â dolenni i adnoddau gwybodaeth a hyfforddiant perthnasol.

# Staff

## Amcanion

Bydd gan ein gweithlu'r sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym:

- creu diwylliant o ragoriaeth drwy ddenu, cadw a datblygu staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel
- darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n ein helpu i gyflawni ein swyddogaethau statudol
- datblygu a chynnal prosesau llywodraethu effeithiol sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau clir a chadarn a dangos ein hatebolrwydd
- dangos ein bod yn darparu gwerth am arian a bod ein prosesau'n berthnasol, yn gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

## Cyflawniadau a pherfformiad

### Staff

Yn ystod 2010-2011, gweithredwyd canlyniadau adolygiad o addasrwydd at ddiben ein strwythur sefydliadol. Ad-drefnwyd ein cyfarwyddiaethau fel bod eu cyfrifoldebau'n fwy cydnaws a chyflwynwyd nifer o rolau i atgyfnerthu'r broses o reoli'r cyfarwyddiaethau, gwella systemau cynllunio at olyniaeth ac ehangu cyfraniad uwch reolwyr islaw lefel cyfarwyddwr wrth wneud penderfyniadau corfforaethol. I ategu hyn cyflwynwyd Bwrdd Arwain Corfforaethol (BAC) fel y corff gwneud penderfyniadau gweithredol, sy'n cynnwys pob cyfarwyddwr a chyfarwyddwr cynorthwyol. Caiff staff ymhob rhan o'r sefydliad grynodeb o'r penderfyniadau a wnaed gan y BAC er mwyn sicrhau tryloywder y broses gwneud penderfyniadau.

Fel yn y flwyddyn flaenorol gweithredwyd cynllun hyfforddi a datblygu yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd drwy'r broses adolygu datblygiad perfformiad flynyddol. Fel rhan o hyn cafwyd carfannau pellach o'n rhaglenni datblygu rheolwyr iau a rheolwyr canol; darparwyd hyfforddiant personol i nifer o staff; a darparwyd amrywiaeth o hyfforddiant yn cwmpasu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau busnes. Dengys adborth cyfranogwyr ar eu boddhad â'r cyfleoedd datblygu ein bod wedi rhagori ar ein dangosydd perfformiad allweddol sef 80 y cant.

Cafodd y modd y cynhaliwn ein rhaglenni sefydlu corfforaethol ei adolygu a'i fireinio. Gwnaethom weithio gyda phob cyfarwyddiaeth i'w wneud yn symlach ac yn fwy penodol a chafodd cynnwys y pecyn a roddir i newydd ddyfodiaid ei wella.

Gweddnewidiwyd y ffordd y darparwn hyfforddiant statudol a gorfodol i gyflogeion, gweithwyr dros dro a chontractwyr. Cyflwynwyd rhaglen gydgysylltiedig a oedd yn cynnwys iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelwch gwybodaeth a risg. Defnyddiwyd e-ddysgu fel dull o gyflwyno llawer o'n hyfforddiant statudol a gorfodol, ar y cyd ag arbenigedd wyneb yn wyneb lle y bo angen.

Gwnaed newidiadau i'r broses o adolygu datblygiad perfformiad, gan gynnwys cyflwyno fframwaith cymhwysedd. Hefyd cyflwynwyd fframwaith gallu rheolwyr o ganlyniad i adborth o'n hadolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl.

Ym mis Gorffennaf 2010 cynhaliwyd arolwg staff a chafwyd cyfradd ymateb o 78 y cant. Roedd staff yn fwyaf cadarnhaol ynghylch y canlynol: meddu ar ddealltwriaeth glir o ddiben a gwerthoedd y CNB; sut mae pobl yn cydweithio mewn tîm; a chyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae nifer o feysydd gweithredu ac mae cyfarwyddwyr yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r grŵp ymgynghori â staff i lunio a gweithredu cynllun i fynd i'r afael â hwy. Ymhlith y rhain roedd effaith newid a rheoli perfformiad a chyflogau.

Yn ystod y flwyddyn newidiodd aelodaeth y grŵp ymgynghori â staff wrth i gyfnod aelodau yn y swydd ddod i ben. Achubwyd ar y cyfle i fireinio cylch gorchwyl y grŵp. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae'n datblygu nifer o fentrau ar y cyd â chyfarwyddwyr, gan gynnwys cydweithio ar gynlluniau gweithredu arolygon staff; cynllunio ar gyfer diwrnod tîm nesaf y CNB ym mis Hydref 2011; a chymryd yr awenau mewn perthynas â sefydlu cysylltiadau rhwng y grŵp a'r gweithlu ehangach. Disgwyliwn weld y cydweithio hwn yn dwyn ffrwyth yn ystod 2011-2012.

**Gwasanaethau**

Yn ystod 2010-2011, gosodwyd y gwaith o gynnal a chefnogi ein seilwaith TGCh craidd ar gontract allanol, gan ddarparu gwasanaeth mwy hyblyg, cost effeithiol a chadarn i ni. Lansiwyd mewnrwyd staff newydd, porth rhyngrwyd i aelodau'r Cyngor, a chafodd ein system rheoli achosion cymhwyster i ymarfer a'n system gofrestru eu gwella ymhellach. Hefyd gwnaed cynnydd sylweddol mewn perthynas â diweddaru'r systemau cyllid, adnoddau dynol a chyflogres, dechreuwyd defnyddio un llwyfan teleffoni a rhesymolwyd ein rhifau ffôn.

Yn ogystal lansiwyd cyfleuster i dalu ffioedd cofrestru blynyddol ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ymateb da gan y nyrsys a'r bydwragedd sydd bellach yn defnyddio'r dull hwn o dalu, ac enillodd y system wobr Real IT am Brosiectau Ymateb Cyflym.

**Llywodraethu**

Yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd y Cyngor a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol flaenorol, penderfynodd y Cyngor symleiddio ei strwythur llywodraethu, gan ddileu nifer o bwyllgorau er mwyn galluogi'r Cyngor i lywio polisi yn fwy effeithiol. Ar 1 Ionawr 2011 cyflwynodd y Cyngor ei strwythur llywodraethu syml newydd, gyda mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynnal, wedi'u hategu gan Bwyllgor Archwilio a Phwyllgor Cydnabyddiaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn sicrhawyd bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Bydwreigiaeth yn fwy cydnaws â'i rôl statudol. Mae'r Bwrdd Penodiadau yn parhau i benodi, arfarnu a hyfforddi panelwyr cymhwyster i ymarfer. Gellir cael rhagor o wybodaeth am rôl y Cyngor yn yr adran ar strwythur, llywodraethu a rheoli (gweler tudalen 23).

**Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**

Fel rhan o'r ymgyrch barhaus i gyflawni effeithlonrwydd, arbedion cost a gwella gwasanaethau, rydym wedi adolygu'r dewis ddulliau o dalu ffioedd yn seiliedig ar y gost weinyddol a'r hwylustod i nyrsys a bydwragedd.

Gwnaed cynnydd i wella diogelwch gwybodaeth a'r broses o lywodraethu data. Cymeradwywyd polisi diogelwch gwybodaeth fel rhan o'r cam cyntaf o wella strwythurau a gweithdrefnau arferion diogelwch gwybodaeth a llywodraethu data.

Yn ystod y flwyddyn arbedwyd £830,000 ym maes caffael. Mae hyn yn cynnwys y tendr llwyddiannus am y contract gwasanaethau ymchwiliadau cyfreithiol mawr.

Rydym wedi parhau i weithredu system gadarn mewn perthynas â rheolaeth fewnol a gwarchod asedau'r CNB, fel y dangoswyd gan y farn archwilio ddiamod unwaith eto eleni.

## Adolygiad ariannol

Roedd yr adnoddau net a ddaeth i mewn am y flwyddyn yn gyfystyr â £7,751,000 (2009-2010: £14,970,000).

Mae'r cronfeydd wrth gefn sy'n werth £50.1 miliwn yn cynnwys gwerth prydles swyddfeydd y Cyngor yn
23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnyddwyr cyfyngedig. Cafodd y brydles ei hailbrisio ar 31 Mawrth 2010 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £13.75 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn cyfanswm yr incwm oedd £52,467,000 (2009-2010: £51,708,000) ac roedd yn cynnwys incwm ffioedd o £51,397,000 (2009-2010: £51,095,000), incwm buddsoddi o £876,000 (2009-2010: £486,000), incwm masnachu o £5,000 (2009-2010: £77,000), a grant gan yr Adran Iechyd am £189,000 i asesu data cymhwyster i ymarfer y CNB er mwyn llunio fframwaith seiliedig ar risg ar gyfer gwaith ail-ddilysu.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfanswm gwariant o £44,716,000 (2009-2010: £36,738,000). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodyn 12 i'r cyfrifon.

Mae'r gwaith o gyflawni cynllun adfer ariannol y CNB a lefelau angenrheidiol cronfeydd wrth gefn yn 2009-2010 yn golygu y gall ein hincwm blynyddol bellach ganolbwyntio'n llawn ar ein gweithgarwch rheoleiddio, er mwyn cyflawni ein prif nod o ddiogelu'r cyhoedd. Felly mae ein gwariant wedi cynyddu yn 2010-2011, ac mae'r warged wedi lleihau, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

### Polisi cronfeydd wrth gefn

Roedd cronfeydd wrth gefn rhydd y CNB yn £32,547,000 ar 31 Mawrth 2011 (£23,391,000 ar 31 Mawrth 2010).

Mae polisi cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd wrth gefn rhydd gyfateb i o leiaf dri mis o wariant gweithredu a gyllidebwyd, yn ogystal â swm i gwmpasu cyfran amcangyfrifedig y CNB o'r diffyg pensiwn yn seiliedig ar brisiad diweddaraf y cynllun pensiwn. Bwriedir cyflwyno'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn erbyn 2014-2015. Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn briodol, yn dilyn cyflawni cynllun adfer ariannol y CNB yn 2009-2010, ac o ystyried sefydlogrwydd ariannol cymharol y CNB. Ystyrir ei bod yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau gweithredu'r CNB a'r gofynion o ran cyfalaf gweithio os bydd amgylchiadau sylweddol nas cynlluniwyd.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu cronfa ddatblygu strategol i ariannu gwariant sy'n fodd i gyflawni amcanion strategol cynllun busnes y CNB.

Caiff lefel y cronfeydd wrth gefn rhydd ei hadolygu gan ymddiriedolwyr bob mis. Caiff y polisi cronfeydd wrth gefn ei adolygu gan ymddiriedolwyr fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol.

**Polisi buddsoddi**

Mae gan y CNB y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd gwarged fel sy'n briodol yn ei farn ef i gynhyrchu incwm i'r Cyngor. Ar hyn o bryd mae gan y CNB bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel, os o gwbl, y gellir eu gwneud. Cedwir cronfeydd y CNB yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pump o fanciau stryd fawr y DU. Yn ystod y flwyddyn cynhyrchwyd refeniw o £876,000 o'r buddsoddiad.

**Asedau sefydlog**

Rhoddir gwybodaeth am newidiadau i asedau sefydlog diriaethol yn nodyn 15 i'r cyfrifon. Cost ychwanegiadau asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd £980,000.

Prif ased y CNB yw ei fuddiant lesddaliad yn 23 Portland Place. Mae'r brydles yn destun cyfamod cyfyngol ac mae'r rhent yn sefydlog sef £250 y flwyddyn.

Cynhaliwyd dau brosiect cyfalaf mawr yn ystod y flwyddyn, sef parhau i uwchraddio seilwaith TGCh y CNB a dechrau defnyddio cyflenwr ar gontract allanol, am gost o £641,000 a dechrau uwchraddio systemau 'cefn swyddfa' y CNB gan gynnwys awtomeiddio gwasanaethau adnoddau dynol a'r gyflogres, am gost o £146,000.

Drwy osod y seilwaith TGCh ar gontract allanol darperir gwell gwasanaeth a sicrheir arloesedd, gwerth am arian a diogelwch, a hefyd golyga y gall y CNB gael gafael ar gronfa fwy o sgiliau TG yn hawdd.

Ym mis Mawrth 2011 dechreuwyd ar y gwaith o ailwampio swyddfeydd ar brydles yn 114-116 George Street, Caeredin.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

**Yr Athro Dickon Weir-Hughes**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

## Adroddiad cydnabyddiaeth

Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilwyr annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Adolygir cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac aelodau eraill yr uwch dîm rheoli bob blwyddyn. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae unrhyw godiad cyflog yn seiliedig ar y radd a roddir i'r unigolyn drwy'r adolygiad perfformiad a datblygu (APD) blynyddol, a gynhelir ym mis Ebrill. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynghori'r Cadeirydd ar gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd; yna mae'n cynghori'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar gydnabyddiaeth aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Mae penderfyniad ar gyfansoddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael ei wneud ar hyn o bryd, ond bydd yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor ac un aelod annibynnol. Meincnodir rolau aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn achlysurol gan drydydd partïon ac mae'r wybodaeth hon ar gael i'r Pwyllgor.

Caiff cydnabyddiaeth pob cyflogai arall ei adolygu bob blwyddyn hefyd. Fel sy'n wir am adolygiadau cyflog yr Uwch Dîm Rheoli gwneir cysylltiad uniongyrchol rhwng gradd APD pob unigolyn a'r hyn y dyfernir iddynt yn yr adolygiad cyflog. Bob blwyddyn bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn penderfynu ar y cynnydd canrannol i'w gymhwyso i wahanol raddau APD pob cyflogai arall. Ystyrir fforddiadwyedd cyffredinol, cyfraddau costau byw, data meincnodi a data recriwtio a chadw. Er mwyn sicrhau cysondeb bydd rheolwyr yn gwneud argymhellion ar gyfer graddau APD eu haelodau tîm yn y lle cyntaf; gallai hyn newid ar ôl iddynt gael eu hadolygu gan reolwr rheolwr ac wedyn yr Uwch Dîm Rheoli. Caiff adolygiadau o berfformiad eu cwblhau, eu cymeradwyo, a'u hanfon i'r adran adnoddau dynol erbyn dechrau mis Mai fel bod unrhyw ddyfarniadau cyflog yn bodloni'r terfyn amser ar gyfer cyflogres mis Gorffennaf. Daw unrhyw ddyfarniadau cyflog i rym o 1 Ebrill. Mae gan y CNB ddogfen gyfarwyddyd ar gyflogau sy'n cynnwys manylion llawn y ffordd y mae'r trefniadau cyflog yn gweithio.

Caiff pob cyflogai gyfnod prawf o chwe mis ar ddechrau ei gyflogaeth.
Gall pob cyflogai ymuno â chynllun pensiwn y CNB o ddechrau ei gyflogaeth. Mae'r cyflogai yn cyfrannu 6 y cant o'i gyflog. Cyfrennir 24.1 y cant gan y cyflogwr. Mae tua hanner y gweithlu yn aelodau o'r cynllun.

Yn unol â chontract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd rhaid i'r naill barti a'r llall roi chwe mis o rybudd i derfynu'r contract. Yn achos uwch reolwyr tri mis o rybudd sydd ei angen. Ar gyfer pob aelod arall o staff rhaid rhoi un neu ddau fis yn dibynnu ar y radd.

Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd presennol yw'r Athro Dickon Weir-Hughes, a benodwyd ar 2 Tachwedd 2009. Ei gydnabyddiaeth yn 2010-2011 oedd £141,695 (2009-2010 o 2 Tachwedd 2009: £57,944. Talwyd £92,842 i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd blaenorol yn 2009-2010 ar gyfer y cyfnod hyd at 1 Tachwedd 2009).

Mae'r Athro Dickon Weir-Hughes yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y CNB (gweler nodyn 13). Mae ei sefyllfa bensiwn fel a ganlyn:

> Yn ystod 2010-2011 roedd y cynnydd gwirioneddol yn ei bensiwn yn 60 oed rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn (2009-2010: rhwng £0 a £2,500).

Petai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai'r cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y cyfandaliad hwn yn y flwyddyn adrodd rhwng £5,000 a £7,500, a fyddai'n gadael cynnydd pensiwn gweddilliol o rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn.

Roedd y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2011 rhwng £30,000 a £35,000 y flwyddyn (31 Mawrth 2010 rhwng £25,000 a £30,000 y flwyddyn). Petai'n derbyn yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, byddai'r cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2011 yn werth rhwng £145,000 a £150,000, a fyddai'n gadael pensiwn gweddilliol o rhwng £20,000 a £25,000 y flwyddyn.

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn oedd £475,000.

Y cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn ystod 2010-2011, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, i'r £1,000 agosaf oedd £10,000 (2009-2010: £0).

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar 31 Mawrth 2011 oedd £483,000 (31 Mawrth 2010 £475,000). Y rheswm dros y gwahaniaeth rhwng y gwerth trosglwyddo ar ddechrau'r flwyddyn yn ogystal â'r cynnydd gwirioneddol yn ystod y flwyddyn, o gymharu â'r gwerth trosglwyddo ar 31 Mawrth 2011, yw'r newidiadau i'r tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo gwerthoedd trosglwyddo ar y ddau ddyddiad gwahanol.

Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau anariannol (buddiannau mewn da) yn 2010-2011 nac yn 2009-2010.

Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir gan y Cyngor yn uniongyrchol ac sy'n atebol iddo yn uniongyrchol.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodyn 13 i'r cyfrifon. Ni chaiff cyflogau unrhyw uwch gyflogeion eraill eu datgelu'n llawn, gan fod aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch hynny.

Ni chaiff aelodau'r Cyngor gydnabyddiaeth am eu gwasanaethau ond cânt lwfans mynychu blynyddol yn seiliedig ar y gofyniad i aelodau dreulio dau neu dri diwrnod y mis yn ymwneud â busnes y CNB. Caiff y Cadeirydd lwfans blynyddol yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau neu dri diwrnod yr wythnos yn ymdrin â busnes y CNB.

Telir £12,000 y flwyddyn i aelodau'r Cyngor. Caiff y Cadeirydd £48,000 y flwyddyn. Telir lwfans mynychu o £260 y diwrnod am fynd i ddigwyddiadau hyfforddi a sefydlu cyn dechrau'r swydd.

Talwyd cyfanswm o £204,780 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2010-2011 (2009-2010: £204,260). Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalen 21.

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2010-2011.

**Treuliau a ffioedd aelodau'r Cyngor**

Telir lwfans mynychu i aelodau'r Cyngor ac aelodau pwyllgorau drwy gyflogres arall gan ddidynnu treth incwm ac yswiriant gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth i aelodau'r CNB.

Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trethadwy. Mae'r CNB yn talu'r dreth incwm a'r yswiriant gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2010-2011 darparwyd £24,394 ar gyfer y rhwymedigaeth dreth hon mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2009-2010: £17,249). Ni ellir datgelu'r dreth a oedd yn daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, oherwydd fe'i cyfrifir yn gyffredinol yn seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor a deiliaid swyddi eraill y CNB (hynny yw, aelodau partner pwyllgorau ac aelodau panel cymhwyster i ymarfer) mewn bandiau treth incwm gwahanol.

Mae'r treuliau y ceir rhwymedigaeth dreth mewn perthynas â hwy wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| Aelodau'r Cyngor | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2010-2011 (£)** | Lwfans a dalwyd i'r aelod 2009-2010 (£) | **Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2010-2011 (£)** | Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2009-2010 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Mrs A Aitken | 12,000 | 12,000 | 5,042 | 4,097 |
| Ms C Baron[1] | 9,000 | 12,000 | 1,527 | 2,357 |
| Dr K Bharj | 12,000 | 12,000 | 2,590 | 1,569 |
| Yr Athro J Ellis | 12,000 | 12,000 | - | 249 |
| Mrs J Fletcher | 12,000 | 12,000 | 2,653 | 5,271 |
| Yr Athro T Hazell – Cadeirydd | 48,000 | 48,000 | 15,740 | 14,015 |
| Mrs L Jacobs | 12,000 | 12,000 | 1,585 | 1,185 |
| Mrs G Nelson | 12,000 | 12,000 | 2,789 | 4,835 |
| Mr G Owen | 12,000 | 12,000 | 2,707 | 2,709 |
| Mr D Pyle | 12,000 | 12,000 | 1,813 | 1,834 |
| Mrs C Rees-Williams | 12,000 | 12,000 | 1,410 | 1,993 |
| Yr Athro M Renfrew | 12,000 | 12,000 | 3,694 | 7,358 |
| Ms R Sawtell | 12,000 | 12,260 | 502 | 640 |
| Mrs B Teuten[2] | 3,780 | Dd/G | 133 | Dd/G |
| Yr Athro J Tunstill | 12,000 | 12,000 | - | 57 |

Caiff aelodau partner, hynny yw, aelodau nad ydynt yn aelodau o'r cyngor ond sy'n aelodau o bwyllgorau lwfans mynychu dyddiol o £260 ynghyd â threuliau teithio rhesymol.

[1] Aelod o'r Cyngor hyd at 31 Rhagfyr 2010
[2] Aelod o'r Cyngor o 1 Ionawr 2011 gan gael hyfforddiant sefydlu ym mis Rhagfyr 2010

Cafodd Julia Drown, aelod partner, ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2010. Yn 2010-2011 talwyd lwfans mynychu o £520 iddi am gyflawni'r rôl hon, a chafodd dreuliau a ystyriwyd yn fuddiant mewn da o £93. Cyn y penodiad hwn, bu'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Llywodraethu (a ddiddymwyd ym mis Rhagfyr 2010) a chafodd lwfansau a threuliau yn rhinwedd y rôl hon. Drwy gydol 2010-2011, parhaodd i fod yn aelod o Ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn a chaiff y lwfansau a'r treuliau a gafodd yn hyn o beth eu nodi hefyd (gweler y tabl ar dudalen 22).

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (sef y pwyllgor a fodolai cyn y Pwyllgor Archwilio) oedd yr aelod Cyngor David Pyle. Datgelir cyfanswm ei daliadau yn y tabl ar dudalen 21.

**Lwfans mynychu a threuliau Julia Drown 2010-2011**

| **Rôl** | Lwfans mynychu (£) | Treuliau (£) |
|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 520 | 93 |
| Cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio Busnes a Llywodraethu | 520 | 120 |
| Cyfarfodydd pensiwn | 1560 | 529 |
| Cyfarfod â Chadeirydd y CNB a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Llywodraethu | 0 | 14 |
| Cyfanswm | 2600 | 756 |

Mae'r holl wariant uchod yn drethadwy am ei fod yn ymwneud â Llundain

**Dulliau o asesu perfformiad**

Cytunodd y Cyngor ar y system arfarnu ar gyfer ei aelodau yn 2010. Rhydd y system hunanarfarniad blynyddol; a sesiwn adborth sy'n rhoi cyfle i aelodau'r Cyngor drafod eu profiadau o'r Cyngor gyda'r Cadeirydd. Mae'r system yn seiliedig ar gymhwysedd, fel sy'n wir am lawer o systemau a ddefnyddir i adolygu aelodau bwrdd. Bydd aelodau'n cwblhau ffurflen hunanarfarnu ac yn cwrdd â'r Cadeirydd am drafodaeth ac adborth ynghyd â nodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn destun proses arfarnu 360 gradd a fydd yn cynnwys adborth gan aelodau'r Cyngor, aelodau'r uwch dîm rheoli a rhanddeiliaid allanol sydd mewn cysylltiad rheolaidd â'r Cadeirydd.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

**Yr Athro Dickon Weir-Hughes**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

## Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011. Wrth lunio'r adroddiad hwn, mae'r ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â Deddf Elusennau 1993 ynghyd â safonau cyfrifyddu cymwys. Cyflwynir y datganiadau yn y fformat sy'n ofynnol gan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau (a ddiwygiwyd ym mis Mawrth 2005).

### Aelodau'r Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CNB. Mae ganddo 14 o aelodau: saith aelod cofrestredig a saith aelod lleyg. Penodir pob un gan y Cyfrin Gyngor. Cafodd yr aelodau canlynol o'r Cyngor eu penodi ar 1 Ionawr 2009 oni nodir fel arall:

| | |
|---|---|
| Yr Athro Tony Hazell (Cadeirydd) | |
| Alison Aitken | |
| Christina Baron | (wedi ymddeol ar 31 Rhagfyr 2010) |
| Dr Kuldip Bharj OBE | (ailbenodwyd ar 1 Ionawr 2011) |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | |
| Joyce Fletcher | |
| Lorna Jacobs | (ailbenodwyd ar 1 Ionawr 2011) |
| Gayle Nelson | (ailbenodwyd ar 1 Ionawr 2011) |
| Grahame Owen | |
| David Pyle | (ailbenodwyd ar 1 Ionawr 2011) |
| Carole Rees-Williams | (ailbenodwyd ar 1 Ionawr 2011) |
| Yr Athro Mary Renfrew | |
| Ruth Sawtell | (penodwyd ar 1 Mawrth 2009) |
| Beatrice Teuten | (penodwyd ar 1 Ionawr 2011) |
| Yr Athro Jane Tunstill | |

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn ffurfiol 10 gwaith y flwyddyn, gan gynnal sesiwn anffurfiol sy'n para deuddydd lle y mae'n ystyried ei effeithiolrwydd fel Cyngor yn ogystal â'r amgylchedd allanol newidiol y mae prosesau rheoleiddio gofal iechyd yn gweithredu ynddo a sut y bydd hyn yn effeithio ar ein strategaeth yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi adolygu a chytuno ar ei gynllun dirprwyo yn sgîl y newidiadau hyn sy'n pennu cyfrifoldebau'r Cyngor, y pwyllgorau a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae'r Cyngor a'r pwyllgorau yn gweithio o fewn rheolau sefydlog sydd hefyd wedi cael eu hadolygu a'u diwygio.

Mae holl gyfarfodydd y Cyngor a'r pwyllgorau yn agored, gydag agendâu, cofnodion a phapurau ar gael i'r cyhoedd onid ystyrir eu bod yn gyfrinachol yn unol â meini prawf llym a ddiffinnir mewn rheolau sefydlog.

## Pwyllgorau

Mae'r strwythur pwyllgorau yn cynnwys pedwar pwyllgor. Mae un o'r rhain, sef y Pwyllgor Bydwreigiaeth, yn bwyllgor polisi. Mae'r pwyllgorau eraill yn gwneud penderfyniadau ynghylch y modd y llywodraethir y sefydliad. Y rhain yw'r Bwrdd Penodiadau, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau partner a gafodd eu recriwtio yn erbyn cymwyseddau sy'n benodol i gylch gwaith y pwyllgor.

### Pwyllgor Bydwreigiaeth

Mae'r Pwyllgor Bydwreigiaeth yn bwyllgor statudol. Ei gylch gwaith yw cynghori'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Wedi'i gadeirio gan yr Athro Kuldip Bharj, mae'r pwyllgor yn cynnwys dau aelod o'r Cyngor ac wyth aelod partner. Mae pum bydwraig a phum aelod lleyg ar y pwyllgor.

### Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor reolaethau effeithiol a bod systemau priodol ar waith i reoli risg. Cadeirir y pwyllgor gan Julia Drown ac mae'n cynnwys tri aelod o'r Cyngor a thri aelod partner.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am gynghori Cadeirydd y Cyngor ar benodiad a chydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac am gynghori'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar benodiad a chydnabyddiaeth aelodau'r uwch dîm rheoli, gan sicrhau tegwch a gonestrwydd a bod arfer da ym maes llywodraethu corfforaethol yn cael ei ddilyn.

## Rheoli

Ers mis Tachwedd 2009, Dickon Weir-Hughes fu'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae'n atebol i'r Cyngor am reoli'r CNB.

Er bod y CNB yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ei brif fannau busnes yw:

| | | |
|---|---|---|
| 23 Portland Place<br>London<br>W1B 1PZ | 61 Aldwych<br>London<br>WC2B 4AE | 114-116 George Street<br>Edinburgh<br>EH2 4LH |

## Cynghorwyr y Cyngor

**Archwilwyr ar y Cyd**
haysmacintyre
Chartered Accountants
Fairfax House
15 Fulwood Place
London
WC1V 6AY

**Archwilwyr ar y Cyd**
Comptroller and Auditor General
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Bancwyr**
HSBC
117 Great Portland Street
London
W1A 4UY

**Cyfreithwyr**
Field Fisher Waterhouse
35 Vine Street
London
EC3N 2AA

**Archwilwyr Mewnol**
PKF
Accountants and Business Advisors
Farringdon Place
20 Farringdon Road
London
EC1M 3AP

## Adolygu risg

Rydym yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'n hamcanion i nodi risgiau a rhwystrau a allai ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion. Rydym wedi gweithredu systemau a gweithdrefnau i liniaru a rheoli risgiau. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli risg yn y datganiad am reolaeth fewnol ar dudalennau 30 i 33.

## Budd y cyhoedd

Mae nodau'r CNB yn bodloni gofynion Deddf Elusennau 2006 o ran diben elusennol: datblygu addysg mewn perthynas â phennu safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth, a datblygu iechyd mewn perthynas â phennu safonau ar gyfer ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth a'n gweithgareddau cymhwyster i ymarfer. Rydym o'r farn ein bod yn cyflawni dwy egwyddor allweddol budd y cyhoedd, fel y'u diffinnir gan y Comisiwn Elusennau, sef yn gyntaf yr angen i allu nodi buddiannau ac yn ail fod yn rhaid i'r budd fod yn fudd i'r cyhoedd. Mae ein gwaith yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n derbyn gofal nyrsio a bydwreigiaeth yn gallu bod yn dawel ei feddwl ynghylch safon y gofal hwnnw, a bod y rheini nad ydynt yn gymwys i ymarfer yn cael eu dwyn i gyfrif, ac felly fod iechyd a lles y cyhoedd yn cael eu diogelu.

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 4 o Ddeddf Elusennau 2006 i roi sylw dyledus i'r canllawiau ar fudd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn wrth bennu'r gweithgareddau a gyflawnir gan yr elusen. Mae'r Cyngor yn ystyried budd y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau. Cafodd y Cyngor ei atgoffa'n ffurfiol o'r cyfrifoldebau hyn mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2011.

## Cymru

Mae'r CNB yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, y Prif Nyrs ac uwch swyddogion eraill yn ogystal â chyflawni ystod eang o weithgareddau yng Nghymru. Roedd 32,973 o nyrsys a bydwragedd wedi'u cofrestru gan y CNB yng Nghymru ym mis Mawrth 2011, o gymharu â 27,492 ym mis Mawrth 2010.

## Yr Alban

Mae'r CNB wedi'i gofrestru â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban ers mis Mehefin 2007. Fel pob un o wledydd y DU, mae'r CNB yn cyflawni nifer o weithgareddau yn yr Alban ac yn mwynhau cydberthynas waith agos â Phrif Nyrs ac uwch swyddogion eraill yr Alban. Mae'r CNB yn agor swyddfa a man gwrandawiadau yng Nghaeredin, a phenodwyd cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer materion yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd 66,639 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr yn yr Alban ym mis Mawrth 2011, o gymharu â 70,267 ym mis Mawrth 2010.

## Gogledd Iwerddon

Bydd y CNB yn cofrestru fel elusen yng Ngogledd Iwerddon pan fydd Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon yn dechrau cofrestru elusennau sydd eisoes wedi'u cofrestru â Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Cyflawnodd y CNB nifer o weithgareddau yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n mwynhau cydberthnasau gwaith agos â Phrif Nyrs ac uwch swyddogion eraill Gogledd Iwerddon. Cyfarwyddwr cynorthwyol materion yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n arwain y gwaith hwn. Roedd 22,436 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2011, o gymharu ag 21,811 ym mis Mawrth 2010.

## Gwybodaeth archwilio berthnasol

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y CNB yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddwyn ein sylw at unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y CNB yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

**Yr Athro Dickon Weir-Hughes**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

# Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Cynlluniwyd holl weithgareddau'r CNB i'n helpu i gyflawni ein hamcan statudol.

Darparwn y gwasanaethau rheoleiddio canlynol:

- Rydym yn cofrestru pob nyrs a bydwraig ac yn sicrhau bod ganddi'r cymwysterau priodol a'i bod yn gymwys i weithio yn y DU.
- Rydym yn gosod safonau addysg ac yn sicrhau ansawdd y broses o ddarparu addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn cofrestru.
- Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys a bydwragedd y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cynnal safonau eu cod proffesiynol ('Y Cod').
- Rydym yn sicrhau bod bydwragedd yn ddiogel i ymarfer drwy osod rheolau ar gyfer eu hymarfer a'u goruchwyliaeth.
- Rydym yn ymchwilio i honiadau a wneir yn erbyn nyrsys a bydwragedd nad ydynt o bosibl wedi dilyn y cod.

## Heriau strategol

Mae heriau newydd yn ein hwynebu yn y flwyddyn i ddod. Byddwn yn gweithio i ateb yr heriau hyn tra'n gwella ein heffeithiolrwydd fel y gallwn barhau i gyflawni ein hamcan statudol.

Gwyddom fod yr amgylchedd y mae nyrsys a bydwragedd yn ymarfer ynddo yn newid:

- Mae iechyd a ffordd o fyw'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau nyrsio a bydwreigiaeth yn newid. Mae hyn yn rhannol am fod poblogaeth y DU yn heneiddio. Yn ogystal ag anghenion iechyd y cyhoedd newidiol, mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau cynyddol o ran y rôl y byddant yn ei chwarae yn eu gofal iechyd eu hunain a sut y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu helpu.
- Mae'r sector cyhoeddus cyfan yn profi cyfyngiadau ariannol nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau i gynhyrchiant yn faterion craidd yn barod. Bydd angen i'r cyhoedd gael sicrwydd na pheryglir ei ddiogelwch a'i les.
- Yn sgîl modelau darparu gwasanaethau newydd mae nyrsys a bydwragedd yn gweithio mewn lleoliadau gwahanol ac mewn ffyrdd gwahanol, mewn amrywiaeth o strwythurau cyflogaeth. Os bydd y tueddiadau hyn yn parhau, bydd modelau traddodiadol o nyrsys a bydwragedd yn gweithio mewn lleoliadau acíwt neu ysbytai ac yn trin cyflyrau yn gwanhau.
- Mae rolau nyrsys a bydwragedd yn esblygu wrth i rai gamu i rolau mwy datblygedig. Bydd y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth cyffredinol yn cynnwys rolau mwy amrywiol wrth i gyflogwyr chwilio am hyblygrwydd.
- Bydd yr angen i ddisodli gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth profiadol sy'n heneiddio yn dod yn her sylweddol i gyflogwyr yn fuan iawn.

Er mwyn ateb yr heriau hyn bydd angen i'r CNB fod yn effeithiol, yn flaengar ac yn hyblyg. I gyflawni hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- gosod safonau addysg ac ymarfer uchel i nyrsys a bydwragedd. Byddwn yn monitro ac yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysg cyn cofrestru ac yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer nyrsys a bydwragedd wrth eu gwaith

- gweithio gyda rheoleiddwyr ac asiantaethau eraill i ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy rannu gwybodaeth lle y bo'n briodol a chymryd camau chwim lle yr amlygir arfer gwael

- parhau i wella ein swyddogaeth cymhwyster i ymarfer a gweithio'n galed i leihau ôl-groniadau a gwella prosesau staffio a pherfformiad

- sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan anghenion ein cwsmeriaid gan gynnwys y cyhoedd, nyrsys a bydwragedd, addysgwyr a chyflogwyr

- parhau i ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn ategu'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol

- dod yn fwy amlwg a gweithgar ymhob rhan o'r DU.

## Nodau strategol

Erys ein hymrwymiad i gyflawni ein tri nod strategol erbyn 2014. Mae'r rhain wrth wraidd ein gwaith ac yn sail i'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

- **Diogelu:** Bydd diogelwch y cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.

- **Rhanddeiliaid:** Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd.

- **Staff:** Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r Canllawiau ar Gyfrifon a roddwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu.

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 1993, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn Managing Public Money.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** **24 Mehefin 2011**

# Datganiad am reolaeth fewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu a Chadeirydd y Cyngor, rydym yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy’n cefnogi’r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB), tra’n diogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn bersonol.

Mae rôl Prif Weithredwr a Chofrestrydd y CNB yn cynnwys dyletswyddau Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ac mae'n atebol i'r Cyfrin Gyngor a'r CNB.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol sy'n gyson ag awydd am risg y CNB ac sy'n ei alluogi i gyflawni ei bolisïau, nodau ac amcanion. Felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi ac nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y CNB. Mae'r system rheoli risg wedi'i chynllunio i werthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau hynny a'u heffaith ddilynol ac i gymryd camau ymdrin â risg er mwyn eu rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu system rheolaeth fewnol ar waith yn y CNB ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

## Ymdrin â risg

Mae'r broses o reoli risg wedi newid eleni, yn unol ag adolygiad o addasrwydd at ddiben y CNB a'r gwaith o ad-drefnu'r system lywodraethu. Bellach mae'r Bwrdd Arwain Corfforaethol newydd (sy'n disodli'r Bwrdd Rheoli Gweithredol a fodolai gynt), a'r Pwyllgor Archwilio (y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hyd at fis Rhagfyr 2010) yn craffu ar y risgiau uwch o bryd i'w gilydd. Mae'r fframwaith risg sy'n gymwys i'r sefydliad cyfan yn cynnwys canllawiau ar nodi, mesur a rheoli risg. Mae pob cyfarwyddwr yn gyfrifol am reoli'r risgiau yn ei briod ardaloedd. Cedwir cofrestrau unigol ar gyfer prosiectau a rhaglenni, gyda chyfarwyddwyr yn gweithredu fel noddwyr ar gyfer y prosiectau yn eu hardaloedd ac yn cymryd cyfrifoldeb am gyfeirio unrhyw risgiau prosiect sylweddol i'r gofrestr risg gorfforaethol. Caiff risgiau isel eu cofnodi ac mae proses gyfeirio ar waith lle y caiff y risgiau mwyaf eu cyfeirio i'r gofrestr risg gorfforaethol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn monitro cynllun blynyddol i gynnal y broses o reoli risg. Mae'r Cyngor yn monitro'r risgiau strategol a gweithredol mwyaf i'r sefydliad yn fynych; adolygir y gofrestr risg gorfforaethol bob yn ail gyfarfod a chaiff y gofrestr risg lawn ei chyhoeddi ar allrwyd aelodau'r Cyngor bob pythefnos.

Mae'r system yn cynnwys:

- cofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau prosiectau
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng y tîm Llywodraethu a rheolwyr unigol, i drafod risg
- trafodaethau rheolaidd ar risg yng nghyfarfodydd tîm y gyfarwyddiaeth (a gadarnhawyd gan y tîm Llywodraethu)
- hyfforddiant ymwybyddiaeth risg i staff cymorth
- arweiniad a chyngor drwy'r adran Lywodraethu
- polisïau rheoli digwyddiadau; mae'r adran Lywodraethu yn monitro digwyddiadau am dueddiadau a risgiau posibl. Ar hyn o bryd mae polisi digwyddiadau newydd yn cael ei ddatblygu.
- Mae adroddiadau ar y gwersi a ddysgwyd ar gael ar gyfer pob prosiect/digwyddiad mawr.

**Y fframwaith risg a rheoli**

Cytunodd y Cyngor ar awydd am risg y CNB ym mis Gorffennaf 2010. Mae'r CNB yn troedio'n ofalus pan ddaw i risg yn y rhan fwyaf o feysydd ond mae'n ei hosgoi mewn perthynas â diogelu'r cyhoedd, effaith ariannol, iechyd a diogelwch, diogelu data sensitif a diogelu hyder y cyhoedd.

Cafodd adroddiad cyd-destun strategol, a oedd yn amlygu'r risgiau strategol tymor hwy i'r nodau a amlinellwyd yn y cynllun rheoli, ei drafod gan y Cyngor o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn.

Eleni cynhaliwyd archwiliad o aeddfedrwydd risg gan yr archwilwyr mewnol. Yn eu barn hwy roedd proses rheoli risg y CNB 'wedi'i diffinio gan risg', h.y. nododd fod fframwaith risg priodol ar waith, gyda risgiau a chamau lliniaru yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, ni ellir dibynnu'n gyfan gwbl ar y broses rheoli risg i amlygu materion risg na sicrhau bod materion risg yn cael eu lliniaru i'r graddau a ddymunir. Cafodd yr argymhellion yn yr archwiliad o aeddfedrwydd risg eu hymgorffori yn y fframwaith risg newydd.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gwahanu dyletswyddau a system dirprwyo ac atebolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwylio rhaglen archwilio mewnol strategol sy'n adolygu rheolaethau mewnol gweithgareddau allweddol o fewn y sefydliad. Caiff y pwyllgor adroddiadau archwilio rheolaidd ynghyd â gwybodaeth am hynt cynlluniau.

Mae'r fframwaith risg a rheoli yn cynnwys:

- Cyngor sy'n cwrdd i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y CNB
- proses lywodraethu sy'n cynnwys cynllun dirprwyo, ynghyd â rheolau sefydlog y Cyngor a chodau ymddygiad ar gyfer aelodau
- cynllun busnes strategol sydd wedi'i lunio gan y CNB ac y mae'r Cyngor wedi cytuno arno ac yn ei fonitro
- prosesau cyfarwyddiaeth a chyllidebu prosiectau sydd â chyllideb flynyddol a gaiff ei monitro a'i hadolygu gan y CNB ac y mae'r Cyngor yn cytuno arni
- system o fesur perfformiad drwy ddangosyddion perfformiad allweddol
- rheoliadau ariannol â gweithdrefnau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer awdurdodi a rheoli eitemau refeniw a gwariant cyfalaf
- polisi diogelwch gwybodaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cynnwys gweithdai a hyfforddiant i staff.

**Adolygiad o effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Cyfrifyddu a Chadeirydd y Cyngor, rydym yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff ein hadolygiad ei lywio gan waith yr adran Lywodraethu, ein harchwilwyr mewnol sef PKF (UK) LLP a'r rheolwyr gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Caiff ein hadolygiad ei lywio hefyd gan y canfyddiadau yn adolygiad perfformiad blynyddol y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd. Ystyriwn y sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheoli a'u hadroddiadau a gweithredwn arnynt. Mae'r archwilwyr mewnol yn gweithio i gynllun blynyddol y mae'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno arno ac maent yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor bob chwarter. Yn dilyn archwiliad, gwneir argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus a chaiff cynnydd ei fonitro gan y Bwrdd Arwain Corfforaethol bob deufis. Fe'n cynghorwyd a'n cefnogwyd gan y Bwrdd Arwain Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn.

Y llynedd gweithredwyd polisïau damweiniau a digwyddiadau er mwyn dysgu o ddigwyddiadau a sicrhau bod system gwelliant parhaus ar waith. Fodd bynnag, daeth yn amlwg nad oedd staff yn ddigon ymwybodol o'r polisïau hyn ac y gellid eu datblygu ymhellach. Felly, cafodd y polisïau damweiniau a digwyddiadau eu cyfuno ac mae grŵp prosiect wedi bod yn gweithio ar broses newydd ar gyfer cofnodi digwyddiadau, a gaiff ei lledaenu'n eang.

Cynhaliwyd archwiliadau mewnol yn y meysydd canlynol: llywodraethu; rheoli risg; rheoli diogelwch data; systemau ariannol; panelwyr cymhwyster i ymarfer; profion ac asesiadau cofrestru; bydwreigiaeth a rheolaethau gwefan.

Mae ein hadolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- adroddiadau cyfnodol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, i'r Cyngor
- cynllun archwilio mewnol strategol tair blynedd, sydd wedi'i gynllunio i dargedu meysydd risg uchel ac y mae'r pwyllgor wedi cytuno arno ac yn ei fonitro
- swyddogaeth archwilio mewnol allanol sy'n gweithredu o dan reolaeth yr adran Lywodraethu ac sy'n atebol i'r Pwyllgor Archwilio
- adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol rheolaidd i'w trafod
- cynlluniau gweithredu rheolwyr lle y caiff gwelliannau i systemau rheolaeth eu nodi a chaiff cynnydd ei fonitro gan y Bwrdd Arwain Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio
- adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol a adolygir.

Roedd a wnelo'r prif risgiau a oedd yn wynebu'r CNB yn 2010-2011 â'r canlynol:

- methu â gwella prosesau Cymhwyster i Ymarfer yn ddigon cyflym i atal swyddogaeth statudol rhag gweithredu'n annigonol; h.y. gwallau diogelwch data; ymdrin ag achosion mewn ffordd anghyson, gan arwain at wneud penderfyniadau anghyson a mwy o achosion yn cronni
- risgiau i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd os bydd unigolion yn cael eu cynnwys ar y gofrestr drwy raglenni hyfforddi nas cymeradwywyd
- effaith deddfwriaeth yr UE ar gydnabod cymwysterau nyrsys a bydwragedd sydd wedi'u hyfforddi yn yr UE. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â darparu profion dawn a rhaglenni addasu.

**Materion rheolaeth fewnol sylweddol**

Y prif faes sy'n profi materion rheolaeth fewnol sylweddol yw Cymhwyster i Ymarfer. Penodwyd Cyfarwyddwr Cymhwyster i Ymarfer newydd ym mis Awst 2010 ac mae wedi bod yn arwain adolygiad cynhwysfawr o'r holl brosesau Cymhwyster i Ymarfer. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried yr holl argymhellion o archwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o'r cam cyntaf ar ein gweithdrefnau cymhwyster i ymarfer a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2010. Caiff cynnydd ei fonitro drwy gynllun gweithredu Cymhwyster i Ymarfer a drafodir yn wythnosol gan yr uwch dîm rheoli Cymhwyster i Ymarfer ac a oruchwylir gan y Cyngor. Rydym yn hyderus y caiff cynnydd ei wneud yn 2011-2012.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

**Yr Athro Dickon Weir-Hughes**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 sy'n cynnwys y Datganiad am Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag adran 43 o Ddeddf Elusennau 1993 a rheoliadau a wnaed o dan adran 44 o'r Ddeddf honno, adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu'r Cyngor o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen a'r Cyngor, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac o dan adran 43 o Ddeddf Elusennau 1993 a chyflwynwn yr adroddiad hwn i chi yn unol â'r Deddfau hynny. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r elusen ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Cyngor er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2011 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 1993, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006.

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i ni gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Adran 24 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni eich hysbysu os, yn ein barn ni:

- y mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir a digonol; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
Archwilwyr Cofrestredig

Fairfax House
15 Fulwood Place
London
WC1V 6AY

**27 Mehefin 2011**

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr adnoddau a ddaeth i mewn ac a aeth allan wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn ar Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r adnoddau a ddaeth i mewn ac a aeth allan wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn ar Ddatganiadau Ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2011 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y Gorchymyn hwnnw.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adrannau Adolygiad Ariannol, Strwythur, Llywodraethu a Rheoli a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion neu'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu

- nid yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

*Amyas C E Morse*
*Comptroller and Auditor General*
*National Audit Office*
*157-197 Buckingham Palace Road*
*Victoria*
*London*
*SW1W 9SP*
**30 Mehefin 2011**

## Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | **Cronfeydd anghyfyngedig 2011** **£'000** | **Cronfeydd cyfyngedig 2011** **£'000** | **Cyfanswm cronfeydd 2011** **£'000** | Cyfanswm cronfeydd 2010 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau a ddaeth i mewn** | | | | | |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o weithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Incwm ffioedd | 3 | **51,397** | **-** | **51,397** | 51,095 |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd: | | | | | |
| • Incwm buddsoddiadau | 2 | **876** | **-** | **876** | 486 |
| • Incwm masnachu | 4 | **5** | **-** | **5** | 77 |
| • Grant (Yr Adran Iechyd) | 27 | **-** | **189** | **189** | 50 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn** | | **52,278** | **189** | **52,467** | 51,708 |
| **Yr adnoddau a wariwyd** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 5 | **37,518** | **205** | **37,723** | 29,849 |
| Costau llywodraethu | 6 | **3,771** | **-** | **3,771** | 3,274 |
| Costau cynhyrchu cronfeydd: | | | | | |
| • Costau cynhyrchu incwm masnachu | 8 | **-** | **-** | **-** | 19 |
| Adnoddau eraill a wariwyd: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 7 | **3,222** | **-** | **3,222** | 3,596 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | | **44,511** | **205** | **44,716** | 36,738 |
| **Adnoddau net a ddaeth i mewn/(a aeth allan) o weithrediadau** | | **7,767** | **(16)** | **7,751** | 14,970 |
| **Enillion cydnabyddedig eraill** | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ennill/(colled) nas gwireddwyd wrth ailbrisio asedau sefydlog | 15 | **-** | **-** | **-** | 1,510 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **7,767** | **(16)** | **7,751** | 16,480 |
| Cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen | | **41,957** | **371** | **42,328** | 25,848 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **49,724** | **355** | **50,079** | 42,328 |

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 42 i 61 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Mantolen ar 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | 2011 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 15 | **17,177** | 18,566 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **17,177** | 18,566 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 17 | **1,204** | 596 |
| Adneuon byrdymor | 24 | **66,500** | 54,000 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 24 | **3,747** | 6,244 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **71,451** | 60,840 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| **Credydwyr** (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 18 | **(38,431)** | (36,978) |
| **Asedau cyfredol net** | | **33,020** | 23,862 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| **Credydwyr** (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 19 | **(118)** | (100) |
| **Asedau net** | | **50,079** | 42,328 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | 27 | **355** | 371 |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | **49,724** | 41,957 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **50,079** | 42,328 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 41 i 59 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Yr Athro Tony Hazell**
**Cadeirydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

**Yr Athro Dickon Weir-Hughes**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, CNB**
**24 Mehefin 2011**

# Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Nodyn | **2011** **£'000** | **£'000** | 2010 £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 23 | | **10,107** | | 16,128 |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | | |
| Llog a gafwyd | 2 | **876** | | 486 | |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 15 | **(980)** | | (1,647) | |
| | | | **(104)** | | (1,161) |
| **Cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn** | | | **10,003** | | 14,967 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 42 i 61 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1 Polisïau cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r Penderfyniad Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi mewn cydymffurfiaeth â'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau* (SoRP Elusennau 2005) a bod y cyfrifon yn ystyried gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion y SoRP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog.

### b) Asedau sefydlog

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarpar | - | 3 blynedd |
| Dodrefn | - | 10 mlynedd |
| Ailwampio - 23 Portland Place | - | 10 mlynedd |
| Safle lesddaliad - 23 Portland Place | - | 50 mlynedd |
| Safle lesddaliad - 61 Aldwych | - | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Safle lesddaliad - Caeredin | - | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Prosiectau TG | - | 3 blynedd |

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Mae'r CNB yn ailbrisio ei eiddo lesddaliad bob pum mlynedd gan gynnal adolygiad lleihad mewn gwerth interim yn y drydedd flwyddyn yn unol ag FRS15, ac ailbrisiad interim yn y cyfamser lle mae'n debygol y bu newid perthnasol mewn gwerth.

### c) Adnoddau sy'n codi - incwm

**Incwm buddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy ac mae'n cynnwys unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill.

**Incwm o weithgareddau elusennol**

Credydwyd ffioedd cofrestru, dilysu a disodli cerdyn rhif adnabod personol i'r incwm ar y diwrnod derbyn. Dyrannwyd ffioedd cyfnodol i'r flwyddyn ariannol briodol yn

seiliedig ar y cysyniad o groniadau. Mae a wnelo ffioedd cyfnodol ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol.

**Incwm masnachu**

Cydnabyddir incwm masnachu yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fo'n dderbyniadwy. Cafwyd incwm masnachu yn sgîl hysbysebu yn *NMC News*.

**ch) Dyrannu costau**

Mae costau gweithredu'r elusen yn cynnwys costau staff, costau safleoedd a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath rhwng gwariant elusennol uniongyrchol, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraethu. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau safleoedd yn ôl nifer y staff ym mhob adran a chaiff costau TGCh a chostau eraill eu dosrannu i adrannau ar sail briodol (er enghraifft defnydd, niferoedd staff).

**Gweithgareddau elusennol**

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cynnal y gofrestr a chymhwyster i ymarfer.

**Costau llywodraethu**

Mae a wnelo costau llywodraethu â'r gwariant yr aed iddo wrth reoli asedau'r Cyngor, ei weinyddiaeth sefydliadol a chydymffurfiaeth â gofynion statudol.

**Gwariant arall**

Dadansoddir gwariant arall o dan y ddau bennawd canlynol:

**Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae a wnelo costau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd â chostau'r adran Gyfathrebu. Y prif elfennau yw ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith seneddol Ewrop a'r DU, cynadleddau a digwyddiadau, cysylltiadau'r cyfryngau a gwariant ar gyhoeddiadau'r Cyngor.

**Cost cynhyrchu cronfeydd**

Roedd a wnelo'r gost hon â gwariant ar weithgareddau masnachu a oedd yn cynnwys sicrhau hysbysebion yn *NMC News*.

**d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

**dd) Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig

Cronfeydd yw'r rhain a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr. Amlinellir nod a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd anghyfyngedig

Cronfeydd yw'r rhain sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor er mwyn datblygu amcanion cyffredinol y sefydliad ac nas dynodwyd at unrhyw ddiben arall.

**e) Asedau ar brydles**

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredu, lle mae'r rhan helaeth o fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn dod i ran y prydleswr, ar y datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

**f) Costau pensiwn**

Darperir buddiannau ymddeol gan gynllun buddiannau diffiniedig, a ariennir drwy gyfraniadau gan y Cyngor a chyflogeion. Telir i mewn i ymddiriedolaeth bensiwn, sydd ar wahân i'r Cyngor yn ariannol. Gwneir y taliadau hyn yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid â chymwysterau proffesiynol. Rhoddir cyfrif am gostau pensiwn drwy godi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r cyflogeion yn gweithio i'r Cyngor. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

## 2 Incwm buddsoddiadau

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog derbyniadwy | | |
| • o adneuon mewn banciau | **876** | 486 |
| | **876** | 486 |

## 3 Incwm ffioedd

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ffioedd cyfnodol | **50,752** | 50,516 |
| Cofrestru | **509** | 396 |
| Dilysu | **129** | 177 |
| Disodli cardiau rhif adnabod personol | **7** | 6 |
| | **51,397** | 51,095 |

## 4 Incwm arall

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Incwm masnachu** | | |
| NMC News | **5** | 77 |
| | **5** | 77 |

## 5 Gweithgareddau elusennol

| | Anghyfyngedig<br>£'000 | Cyfyngedig<br>£'000 | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **3,351** | **205** | **3,556** | 2,519 |
| Addysg | **1,659** | **-** | **1,659** | 1,540 |
| Cynnal y gofrestr | **6,400** | **-** | **6,400** | 5,467 |
| Cymhwyster i ymarfer | **26,108** | **-** | **26,108** | 20,323 |
| | **37,518** | **205** | **37,723** | 29,849 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol (fel yn nodyn 10), costau staff a gorbenion cysylltiedig.

## 6 Costau llywodraethu

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **309** | 282 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - haysmacintyre | **23** | 22 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - Swyddfa Archwilio Genedlaethol | **5** | 5 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau) (nodyn 1ch) | **3,434** | 2,965 |
| | **3,771** | 3,274 |

## 7 Gwariant arall - cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **209** | 156 |
| Cylchlythyr y CNB *NMC News* | **-** | 976 |
| Cyfathrebu | **86** | 65 |
| Argraffu cyhoeddiadau'r CNB | **939** | 557 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau) (nodyn 1ch) | **1,988** | 1,842 |
| | **3,222** | 3,596 |

## 8 Gwariant arall - cost cynhyrchu cronfeydd

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwariant masnachu | **-** | 19 |
| | **-** | 19 |

## 9 Costau gweithgareddau elusennol

| | **Costau staff £'000** | **Dibrisiant £'000** | **Costau eraill £'000** | **Cyfanswm 2011 £'000** | Cyfanswm 2010 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **1,902** | **214** | **1,440** | **3,556** | 2,519 |
| • Addysg | **478** | **71** | **1,110** | **1,659** | 1,540 |
| • Cynnal y gofrestr | **3,668** | **681** | **2,051** | **6,400** | 5,467 |
| • Cymhwyster i ymarfer | **7,132** | **1,088** | **17,888** | **26,108** | 20,323 |
| Costau llywodraethu | **2,521** | **132** | **1,118** | **3,771** | 3,274 |
| Gwariant arall: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **1,188** | **183** | **1,851** | **3,222** | 3,596 |
| • Gwariant masnachu | **-** | **-** | **-** | **-** | 19 |
| | **16,889** | **2,369** | **25,458** | **44,716** | 36,738 |

## 10 Dadansoddi costau uniongyrchol

| | **Costau uniongyrchol £'000** | **Costau cymorth £'000** | **Cyfanswm 2011 £'000** | Cyfanswm 2010 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost cynhyrchu cronfeydd:** | | | | |
| Costau cynhyrchu incwm masnachu | **-** | **-** | **0** | 19 |
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **2,902** | **654** | **3,556** | 2,519 |
| • Addysg | **1,441** | **218** | **1,659** | 1,540 |
| • Cynnal y gofrestr | **4,313** | **2,087** | **6,400** | 5,467 |
| • Cymhwyster i ymarfer | **22,776** | **3,332** | **26,108** | 20,323 |
| Is-gyfanswm gweithgareddau elusennol | **31,432** | **6,291** | **37,723** | 29,849 |
| Llywodraethu | **3,366** | **405** | **3,771** | 3,274 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **2,661** | **561** | **3,222** | 3,596 |
| **Cyfanswm** | **37,459** | **7,257** | **44,716** | 36,738 |

## 11 Dadansoddi costau cymorth

| **Cost cymorth** | **Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau** | **Addysg** | **Cynnal y gofrestr** | **Cymhwyster i Ymarfer** | **Llywodraethu** | **Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd** | **Cyfanswm 2011** | Cyfanswm 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| Cyfleusterau | 56 | 19 | 180 | 287 | 35 | 48 | **625** | 571 |
| Cyllid | 135 | 45 | 432 | 690 | 84 | 116 | **1,502** | 1,465 |
| Adnoddau Dynol | 106 | 35 | 337 | 538 | 65 | 91 | **1,172** | 891 |
| TGCh | 357 | 119 | 1,138 | 1,817 | 221 | 306 | **3,958** | 2,325 |
| | **654** | **218** | **2,087** | **3,332** | **405** | **561** | **7,257** | 5,252 |

Dyrannwyd y costau cymorth ar sail nifer y staff ym mhob maes.

## 12 Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl dosbarthiad naturiol

| | **2011** **£'000** | 2010 £'000 | **Manylion (gweler y dudalen nesaf)** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | **16,889** | 14,456 | 1 |
| Costau staff eraill | **735** | 743 | |
| Safleoedd | **1,920** | 1,809 | |
| Yswiriant | **77** | 81 | |
| Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw | **126** | 165 | |
| Llogi cyfarpar | **7** | 24 | |
| Cymhwyster i Ymarfer | **13,953** | 10,752 | 2 |
| Dibrisiant | **2,369** | 1,871 | 3 |
| Gwasanaeth arlwyo ar gyfer gwrandawiadau cymhwyster i ymarfer a chyfarfodydd yn 61 Aldwych | **159** | 141 | |
| Ffreutur - 23 Portland Place | **251** | 243 | |
| Cost sicrhau ansawdd addysg | **881** | 874 | |
| Cost adolygu Awdurdodau Goruchwylio Lleol | **39** | 49 | |
| Ffioedd proffesiynol | **2,082** | 1,078 | 4 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio | **23** | 22 | |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio (Swyddfa Archwilio Genedlaethol) | **5** | 5 | |
| Datblygu TG a chymorth TG | **1,415** | 401 | 5 |
| Tâl postio | **560** | 567 | |
| Cost argraffu a deunydd ysgrifennu | **801** | 787 | |
| Hysbysebu a recriwtio | **378** | 175 | 6 |
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **209** | 162 | |
| Cylchlythyr y CNB NMC News | **-** | 976 | 7 |
| Argraffu cyhoeddiadau'r CNB | **939** | 557 | 8 |
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **309** | 282 | |
| Costau pwyllgorau | **149** | 136 | |
| Costau cymorth eraill | **440** | 382 | 9 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **44,716** | 36,738 | |

## Manylion ychwanegol ar gyfer nodyn 12

### 1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Gwnaed mwy o fuddsoddiad mewn adnoddau staff yn 2010-2011 yn dilyn yr adolygiad o addasrwydd at ddiben ein strwythur sefydliadol, gydag adnoddau ychwanegol yn mynd i sawl cyfeiriad. Yn arbennig, cafodd strwythur ac arferion gwaith y gyfarwyddiaeth Cymhwyster i Ymarfer eu had-drefnu'n sylweddol. Hefyd, gwelwyd mwy o fuddsoddiad yn staff cyfarwyddiaeth Safonau a Pholisïau a chyfarwyddiaeth Addysg y CNB, er mwyn cefnogi'r prosesau rheoleiddio rhagweithiol.

Defnyddiwyd adnoddau ychwanegol hefyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o brosiectau TGCh, gan gynnwys rhoi'r gwasanaeth i gynnal y seilwaith TGCh a darparu cymorth TGCh ar gontract allanol, a gwella a diweddaru ein system rheoli achosion, system gofrestru a systemau cefn swyddfa'n barhaus.

### 2 Cymhwyster i ymarfer

Gweler tudalennau 8-10 am fanylion gweithgarwch cymhwyster i ymarfer yn ystod y flwyddyn. Roedd y cynnydd mewn costau yn gyson â'r cynnydd mewn gweithgarwch ymchwilio a gwrando yn ystod y flwyddyn.

### 3 Dibrisiant

Cafwyd taliadau dibrisio uwch yn sgîl blwyddyn lawn o ddibrisio'r buddsoddiad cyfalaf yn y system rheoli achosion Cymhwyster i Ymarfer yn 2010-2011, ar ôl iddi gael ei chyfalafu ym mis Ionawr 2010. Gwelwyd taliadau ychwanegol hefyd yn dilyn mwy o fuddsoddiad yn y seilwaith TGCh a fu'n ofynnol er mwyn moderneiddio arferion gwaith a sicrhau bod systemau a phrosesau TG yn addas at y diben.

### 4 Datblygu TG a chymorth TG

Mae'r cynnydd yn deillio'n bennaf o gostau'r contract allanol am wasanaeth cynnal a chymorth ar gyfer ein seilwaith TGCh craidd, o fis Awst 2010. Drwy wneud hyn cawn wasanaeth mwy hyblyg, costeffeithiol a chadarn. Hefyd, cafwyd mwy o gostau cynnal caledwedd a meddalwedd, er mwyn ategu'r buddsoddiad cyfalaf uwch mewn systemau megis y system rheoli achosion, a weithredwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

### 5 Ffioedd proffesiynol

Roedd angen defnyddio mwy o arbenigedd proffesiynol a chyfreithiol allanol yn 2010-2011 er mwyn cefnogi nifer o brosiectau allweddol y CNB, gan gynnwys codi pryderon a'u cyfeirio, cyflwyno profion gallu a rhaglenni addasu'r UE, gwerthuso effeithiolrwydd athrawon bydwragedd wrth eu gwaith, adolygu addysg nyrsio cyn cofrestru, gwella profiadau cwsmeriaid a datblygu'r wefan.

## 6 Hysbysebu a recriwtio

Cynyddodd gweithgarwch recriwtio yn 2010-2011, er mwyn llenwi'r swyddi ychwanegol sy'n ofynnol ym maes Cymhwyster i Ymarfer a'r cyfarwyddiaethau sy'n llywio prosesau rheoleiddio rhagweithiol. Bu nifer o ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer uwch benodiadau yn ystod y flwyddyn hefyd.

## 7 Cylchlythyr y CNB *NMC News*

Rhoddwyd y gorau i gyhoeddi *NMC News* yn ystod 2009-2010, yn dilyn adolygiad o'i effeithiolrwydd a'i werth am arian. Ailgyfeiriwyd y buddsoddiad mewn amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu amgen wedi'u targedu ar gyfer nyrsys a bydwragedd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

## 8 Argraffu cyhoeddiadau'r CNB

Mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r cyhoeddiadau amgen a gynhyrchwyd ar gyfer nyrsys a bydwragedd ar ôl rhoi'r gorau i gyhoeddi *NMC News*. Er enghraifft, mae *NMC Update* bellach yn cael ei gynhyrchu bob mis a chaiff ei ddosbarthu i nyrsys a bydwragedd fel rhan o'u pecynnau cofrestru. Cafwyd costau argraffu a dosbarthu uwch ym mis Mai 2010 ar gyfer *Fit for you*, ymgyrch bostio a gynlluniwyd i nodi dewis ddulliau cyfathrebu pob nyrs a bydwraig, a *Raising and escalating concerns: Guidance for nurses and midwives,* yr anfonwyd copi at bawb ar y gofrestr ym mis Tachwedd 2010.

## 9 Costau cymorth eraill

Mae costau cymorth eraill yn cynnwys costau darparu neu hwyluso gwasanaethau i nyrsys a bydwragedd. Yn eu plith mae costau fel: taliadau cyfathrebu ac ariannu cyffredinol.

## 13 Gwybodaeth am gyflogeion

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Cyflogau a chostau cysylltiedig** | | |
| Cyflogau[3] | | |
| • Rheoli | **754** | 578 |
| • Gweinyddu | **9,386** | 8,574 |
| Costau nawdd cymdeithasol: | | |
| • Rheoli | **79** | 63 |
| • Gweinyddu | **794** | 721 |
| Costau pensiwn - staff presennol (nodyn 21): | | |
| • Rheoli | **164** | 117 |
| • Gweinyddu | **2,496** | 2,194 |
| Costau pensiwn - staff sefydliadau blaenorol sydd wedi ymddeol (nodyn 21) | **25** | 29 |
| Staff dros dro | **3,191** | 2,180 |
| | **16,889** | 14,456 |

Nodir cydnabyddiaeth gyfunol cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| **Bandiau cyflog** (£) | **2011 Nifer y staff** | 2010 Nifer y staff |
|---|---|---|
| 10,001 - 20,000 | **1** | 0 |
| 50,001 - 60,000 | **1** | 0 |
| 60,001 - 70,000 | **1** | 0 |
| 70,001 - 80,000 | **1** | 1 |
| 80,001 - 90,000 | **1** | 2 |
| 90,001 - 100,000 | **1** | 3 |
| 100,001 - 110,000 | **2** | 0 |
| 140,001 – 150,000 | **1** | 0 |

[3] Please refer to note 12, detail 1

| **Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2011** | **2011 Nifer y staff** | 2010 Nifer y staff |
|---|---|---|
| (£) | | |
| 0 - 5,000 | **5** | 3 |
| 5,001 - 10,000 | **2** | 2 |
| 10,001 - 15,000 | **2** | 1 |

Mae'r holl gyflogeion uchod yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y CNB a weinyddir gan Premier Pensions (rhif cofrestru'r cynllun 101652586).

Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiynwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd cyflogai presennol yn marw, telir cyfandaliad sy'n ddwywaith swm y cyflog pensiynadwy ynghyd â holl gyfraniadau'r aelod gyda llog di-dreth cyfansawdd sy'n 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi, telir pensiwn sy'n 1/160fed o'r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai'r aelod fod wedi'i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd 10 (2010: wyth) aelod o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn perthyn i'r bandiau canlynol:

| | **2011 Nifer y staff** | 2010 Nifer y staff |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | **6** | 6 |
| £70,001 - £80,000 | **3** | 0 |
| £80,001 - £90,000 | **0** | 2 |
| £90,001 - £100,000 | **1** | 0 |

Roedd 286 o gyflogeion (wyth rheolwr a 278 o staff gweinyddol) ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Y flwyddyn flaenorol 267 (chwe rheolwr a 261 o staff gweinyddol) oedd y nifer.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd y benthyciadau canlynol i'r cyfarwyddwyr ar gyfer tocynnau tymor:

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| S Williams | **2,001 – 2,500** | 2,001 - 2,500 |
| S Atkinson | **1,001 – 1,500** | 1,001 - 1,500 |
| R Thompson | **3,501 – 4,000** | 3,501 - 4,000 |

## 14 Trethiant

O ganlyniad i'w statws elusennol nid oes rhaid i'r Cyngor dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

## 15 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

| | Dodrefn | Cyfarpar | Ailwampio adeiladau | Safleoedd lesddaliad hir Nodyn 1 | Adeilad 61 Aldwych | Prosiectau TG CMS ac ITP Nodyn 2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | **£’000** |
| Cost: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2010 | 297 | 1,802 | 5,610 | 9,772 | 1,770 | 3,429 | **22,680** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 19 | 921 | 77 | - | - | (37) | **980** |
| Gwarediadau | - | (2) | - | - | - | - | **(2)** |
| 31 Mawrth 2011 | 316 | 2,721 | 5,687 | 9,772 | 1,770 | 3,392 | **23,658** |
| Dibrisiant: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2010 | 109 | 1,377 | 1,632 | 0 | 220 | 776 | **4,114** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 32 | 253 | 567 | 195 | 178 | 1,144 | **2,369** |
| Gwarediadau | - | (2) | - | - | - | - | **(2)** |
| 31 Mawrth 2011 | 141 | 1,628 | 2,199 | 195 | 398 | 1,920 | **6,481** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | | |
| **31 Mawrth 2011** | **175** | **1,093** | **3,488** | **9,577** | **1,372** | **1,472** | **17,177** |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | |
| 31 Mawrth 2010 | 188 | 425 | 3,978 | 9,772 | 1,550 | 2,653 | 18,566 |

## 15 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen – parhad

Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd y CNB) y buddiant lesddaliad yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Ar 31 Mawrth 2010, cafodd y brydles ei phrisio ar sail defnydd presennol, gan gynnwys y gwaith ailwampio, gan y cwmni prisio allanol Drivers Jonas. Nodwyd ei bod yn werth £13,750,000. Dylid nodi na ellir trosglwyddo'r brydles o ganlyniad i'r cymal defnyddwyr cyfyngedig.

Mae'r categori prosiectau TG yn cynnwys y system rheoli achosion Cymhwyster i ymarfer a'r gwaith o uwchraddio'r seilwaith TGCh, a gwblhawyd yn ystod 2009-2010.

Dechreuwyd y prosiectau cyfalaf canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Uwchraddio systemau cefn swyddfa'r CNB
- Trosglwyddo seilwaith TGCh y CNB i gyflenwr ar gontract allanol
- Ailwampio swyddfeydd ar brydles yn Clarendon House, 114-116 George Street, Caeredin

## 16 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn atebol i'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng y CNB a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd, mae'r CNB mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011 talwyd £48,000 i Gadeirydd y Cyngor (2009-2010: £48,000).

Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £309,000 (2009-2010: £282,000) i aelodau'r Cyngor.

Cafodd holl aelodau'r Cyngor eu talu'n uniongyrchol drwy gyflogres y CNB.

Rhoddir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalen 21.

Cyfanswm y swm a oedd yn ddyledus i aelodau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2011 oedd £1,836 (2009 - 2010: £4,620)

Gwnaed croniad o £24,394 (2009 – 2010: £17,249) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

## 17 Dyledwyr

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Dyledwyr eraill | **109** | 155 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **1,095** | 441 |
| | **1,204** | 596 |

## 18 Credydwyr

| Symiau sy’n ddyledus o fewn blwyddyn | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Credydwyr eraill a chroniadau | **8,520** | 7,670 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | **387** | 317 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cyfnodol ar gyfer 2009-2010 | **-** | 28,991 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cyfnodol ar gyfer 2010-2011 | **29,524** | - |
| | **38,431** | 36,978 |

## 19 Credydwyr

| Symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cyfnodol ar gyfer 2010-2011 | **-** | 100 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cyfnodol ar gyfer 2011-2012 | **118** | - |
| | **118** | 100 |

Mae a wnelo incwm gohiriedig â ffioedd cyfnodol a ragdalwyd, ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 20 Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002 cafodd y CNB ei gofrestru yng Nghofrestr Ganolog yr Elusennau (rhif elusen 1091434). Yn sgîl hyn caniatawyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Mae'r statws hwn hefyd yn esgor ar fuddiannau treth (nodyn 14). Ar 18 Mehefin 2007 cafodd y CNB ei gofrestru gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

## 21 Ymrwymiadau pensiwn

Ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Adran Iechyd ac NHS Education for Scotland, mae'r CNB yn aelod o gynllun pensiwn a weinyddir gan Premier Pensions (rhif cofrestru'r cynllun 101652586). Mae'r cynllun, y mae tua hanner cyflogeion y CNB yn perthyn iddo, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actiwari cymwys ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r cynllun gan Mercer Limited ar 31 Mawrth 2007, gan ddefnyddio'r dull prisio sy'n seiliedig ar ragamcanu unedau. Ar ddyddiad y prisiad roedd cronfa'r cynllun gwerth £60.7 miliwn ar y farchnad (heb gynnwys blwydd-daliadau a brynwyd at ddiben buddiannau pensiwn). Roedd gwerth actiwaraidd yr asedau yn cyfateb i 77 y cant o werth y buddiannau, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer y cynnydd mewn enillion a phensiynau a ddisgwylir yn y dyfodol. Caiff y diffyg gwasanaeth blaenorol o ran asedau ei amorteiddio dros gyfnod o 10 mlynedd. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau uwchlaw codiadau cyflog o 1 y cant y flwyddyn ac uwchlaw cynnydd mewn pensiwn o 2 y cant y flwyddyn.

Roedd y gost pensiwn a aseswyd ar sail cyngor actiwaraidd yn y gorffennol ac a godwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyfraniadau'r CNB (cyflogwr) i bob cynllun yn ystod y flwyddyn | **2,660** | 2,311 |
| | **2,660** | 2,311 |
| Cyfraniad y CNB (cyflogwr) | 24.1 % | 24.1% |
| Cyfraniad cyflogeion | 6.0 % | 6.0% |

Petai'r cynllun wedi'i derfynu ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2007), byddai'r asedau wedi cyfateb i oddeutu 63 y cant o'r swm yr oedd ei angen i brynu contractau yswiriant ar gyfer buddiannau cronedig aelodau gweithredol ac ymadawyr blaenorol a buddiannau cyfredol pensiynwyr.

Yn dilyn prisiad actiwaraidd y cynllun ar 31 Mawrth 2007, cytunodd holl aelodau'r cynllun i gynyddu cyfraniadau iddo o 1 Awst 2008. Disgwylir i'r cyfraniadau uwch newydd wella lefel ariannu'r cynllun yn raddol, felly ar ddiwedd cyfnod o 10 mlynedd o'r dyddiad prisio bydd y lefel ariannu wedi cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd presennol.

Cafodd y cynllun ei brisio gan Premier Pensions ar 31 Mawrth 2010. Ar hyn o bryd, mae canlyniadau'r prisiad a'r effaith ar lefelau ariannu'r cynllun yn y dyfodol yn destun trafod rhwng gweinyddwyr y cynllun pensiwn, ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn a'r cyflogwyr.

Safon gyfrifyddu, FRS 17: Nid oes unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfran y CNB o gyfanswm diffyg y cynllun sef £18.3 miliwn ar adeg y prisiad actiwaraidd diwethaf (31 Mawrth 2007) wedi'i chynnwys yn y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, gan fod y cynllun yn un aml-gyflogwr ac ni all y CNB nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae FRS 17 yn darparu ar gyfer rhoi cyfrif am gyfraniadau i'r cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel y cyfryw, bydd y gost a gydnabyddir yn SOFA'r CNB yn cyfateb i'r cyfraniad sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r CNB yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn y CNB. Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r SOFA yn unol â hynny. Yn 2010 - 2011 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £24,686 (2009 - 2010: £28,903).

## 22 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2011, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

## 23 Cysoni adnoddau net sy'n dod i mewn â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn o weithrediadau | **7,751** | 14,970 |
| Incwm buddsoddiadau | **(876)** | (486) |
| Taliadau dibrisio | **2,369** | 1,871 |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | **(608)** | (165) |
| Cynnydd /(Lleihad) mewn credydwyr a darpariaethau | **1,471** | (62) |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **10,107** | 16,128 |

## 24 Cysoni llif arian parod net â symudiadau mewn cronfeydd net

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn | **10,003** | 14,967 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | **60,244** | 45,277 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | **70,247** | 60,244 |

## 25 Dadansoddiad o'r newidiadau mewn cronfeydd net

| | 1 Ebr 10 | **Llifau arian parod** | **31 Maw 11** |
|---|---|---|---|
| | £'000 | **£'000** | **£'000** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 60,244 | 10,003 | **70,247** |
| Cyfanswm | 60,244 | 10,003 | **70,247** |

## 26 Ymrwymiadau prydlesu

Ar 31 Mawrth 2011 roedd gan y CNB ymrwymiadau i wneud taliadau yn y flwyddyn ganlynol o dan brydlesau gweithredu nad oedd modd eu canslo fel y nodir isod.

| | **Tir ac adeiladau** | | **Offer a pheiriannau** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | 2010 | **2011** | 2010 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| • O fewn blwyddyn | **-** | - | **-** | 9 |
| • Yn yr ail i bumed flwyddyn yn cynnwys y blynyddoedd hynny | **-** | - | **6** | 6 |
| • Mewn mwy na phum mlynedd | 2,136 | 1,119 | **-** | - |
| Ymrwymiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn | **2,136** | 1,119 | **6** | 15 |

Mae'r CNB yn prydlesu safle yn 61 Aldwych, am y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, ac yn Clarendon House, 114 - 116 George Street, Caeredin am y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021.

## 27 Symudiad mewn cronfeydd cyfyngedig

| | Balans ar 1 Ebrill 2010 | Incwm | Adnoddau a wariwyd | Balans ar 31 Mawrth 2011 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ailddilysu - (i) | 321 | - | (63) | **258** |
| Diogelu oedolion - (ii) | 50 | - | (50) | **-** |
| Asesu data cymhwyster i ymarfer - (iii) | - | 189 | (92) | **97** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 371 | 189 | (205) | **355** |

i) Roedd a wnelo'r balans o £321,000 ar 1 Ebrill 2010 â chyfraniad yr Adran Iechyd at waith y CNB ar ailddilysu. Defnyddiwyd £63,000 yn ystod 2010-2011. Caiff y balans o £258,000 a ddygwyd ymlaen ei ddefnyddio yn 2011-2012.

ii) Roedd a wnelo'r balans o £50,000 ar 1 Ebrill 2010 â grant gan yr Adran Iechyd tuag at waith ar y rôl a chwaraeir gan nyrsys i ddiogelu oedolion. Cwblhawyd y gwaith hwn yn ystod 2010-2011.

iii) Yn ystod 2010-2011 darparodd yr Adran Iechyd grant gwerth £189,000 i asesu data cymhwyster i ymarfer y CNB er mwyn llunio fframwaith seiliedig ar risg ar gyfer gwaith ailddilysu. Defnyddiwyd £92,000 yn 2010-2011 a chaiff y balans o £97,000 a ddygwyd ymlaen ei ddefnyddio ar ddechrau 2011-2012.

## 28 Asedau net yn ôl cronfa

| | Anghyfyngedig cyffredinol | Cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau sefydlog | **17,177** | **-** | **17,177** |
| Asedau cyfredol | **71,096** | **355** | **71,451** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(38,431)** | **-** | **(38,431)** |
| Rhwymedigaethau hirdymor | **(118)** | **-** | **(118)** |
| Balans ar 31 Mawrth 2011 | **49,724** | **355** | **50,079** |

## 29 Taliadau arbennig

Roedd tri thaliad arbennig yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 a oedd yn werth cyfanswm o £127,889 (yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 roedd y taliadau arbennig yn werth llai na £250,000). Cafodd y taliadau hyn eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a chadarnhawyd eu bod yn daliadau priodol a rhesymol gan Drysorlys EM.

**Atodiad 1 (Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw)**

# Penderfyniad Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Ffurf Cyfrifon) 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001.[4]

This determination has effect from 23rd February 2010.

**Interpretation**

**1** In this Determination-

“the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;

“the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.

“the Council” means the Nursing and Midwifery Council;

“the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

**Determination**

**2** The accounts must-

(a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council’s state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; and

(b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

---

[4] S.I.2002/253.

**3** Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; and

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SoRP.

**4** Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities' SoRP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

**5** In cases referred to in paragraph 5, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SoRP and the FReM.

**6** This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council

Dated: 22nd February 2010

Signed:

On Behalf of the Privy Council